Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Y Concordat ar Fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol

Rhagfyr 2020

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cynnwys

**1. Ein Cyd-ymrwymiad** Error! Bookmark not defined.

Cwmpas **Error! Bookmark not defined.**

**2. Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol gyda'r Concordat** Error! Bookmark not defined.

Canlyniadau **Error! Bookmark not defined.**

Camau Gweithredu **Error! Bookmark not defined.**

**3. Cyflawni Canlyniadau Cadarnhaol yng Nghymru** Error! Bookmark not defined.

**4. Yr Achos dros Goncordat** Error! Bookmark not defined.

Beth yw anghenion cymleth? **Error! Bookmark not defined.**

Nodweddion Gwarchodedig **Error! Bookmark not defined.**

Dull Gwahanol o Ymdrin ag Anghenion Cymleth **Error! Bookmark not defined.**

Plant, Teuluoedd ac Unigolion Eraill o Bwys **Error! Bookmark not defined.**

**5. Cyflawni Canlyniadau Cadarnhaol yn Lleol** Error! Bookmark not defined.

Beth yw Dull System Gyfan? **Error! Bookmark not defined.**

Yr Achos dros Ddull System Gyfan **Error! Bookmark not defined.**

**6. Sut i Sefydlu Dull System Gyfan** Error! Bookmark not defined.

Beth yw'r hanfodion allweddol mewn Dull System Gyfan llwyddiannus? **Error! Bookmark not defined.**

Beth yw'r camau cyntaf wrth sefydlu Dull System Gyfan? **Error! Bookmark not defined.**

Pwy ddylai arwain? **Error! Bookmark not defined.**

Pwy ddylai gael eu cynnwys? **Error! Bookmark not defined.**

Sut ydych yn sefydlu ac yn cynnal ymgysylltiad y partneriaid hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Beth yw manteision amcanion a rennir rhwng gwahanol bartneriaid? **Error! Bookmark not defined.**

Sut ydych yn annog ac yn hybu amcanion a rennir pan nad ydynt yn bodoli'n ffurfiol?**Error! Bookmark not defined.**

A oes unrhyw strwythurau sydd eisoes yn bodoli sy'n gwneud sefydlu Dull System Gyfan yn haws? **Error! Bookmark not defined.**

Ariannu Dull System Gyfan: Astudiaeth Achos Willowdene (Gorllewin Mercia) **Error! Bookmark not defined.**

**Ffynonellau Gwybodaeth Ychwanegol** Error! Bookmark not defined.

**Atodiad A. Cydlofnodwyr y Concordat** Error! Bookmark not defined.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder **Error! Bookmark not defined.**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi **Error! Bookmark not defined.**

Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi **Error! Bookmark not defined.**

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol **Error! Bookmark not defined.**

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi **Error! Bookmark not defined.**

Swyddfa’r Cabinet **Error! Bookmark not defined.**

Yr Adran Addysg **Error! Bookmark not defined.**

Adran Gwaith a Phensiynau **Error! Bookmark not defined.**

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Error! Bookmark not defined.**

National Health Service England & Improvement **Error! Bookmark not defined.**

Public Health England **Error! Bookmark not defined.**

Trysorlys ei Mawrhydi **Error! Bookmark not defined.**

Y Swyddfa Gartref **Error! Bookmark not defined.**

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol **Error! Bookmark not defined.**

**Atodiad B. Metrigau Llwyddiant ar gyfer Canlyniadau’r Concordat** Error! Bookmark not defined.

**Atodiad C. Ystyried Anghenion Penodol y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig a Charfanau eraill sy’n Agored i Niwed** Error! Bookmark not defined.

Menywod Hŷn **Error! Bookmark not defined.**

Trawsryweddol **Error! Bookmark not defined.**

Beichiogrwydd a Mamolaeth **Error! Bookmark not defined.**

Anabledd ac Iechyd (gan gynnwys Iechyd Corfforol a Meddyliol) **Error! Bookmark not defined.**

Hil, Ethnigrwydd a Chenedligrwydd **Error! Bookmark not defined.**

Crefydd **Error! Bookmark not defined.**

Carfanau Eraill sy’n Agored i Niwed **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Ein Cyd-ymrwymiad

Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018[1], nododd y Llywodraeth bwysigrwydd partneriaethau effeithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion lluosog a chymhleth menywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol (cyfeirir atynt fel 'menywod' o hyn ymlaen). Bu i'r Strategaeth ymrwymo'r Llywodraeth i ddatblygu Concordat ledled Cymru a Lloegr, a fyddai'n nodi sut y dylai'r Llywodraeth a phartneriaid eraill gydweithio ar lefel genedlaethol a lefel leol i nodi ac ymateb i anghenion menywod. Er mwyn datblygu dogfen o'r fath, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau ac adrannau eraill y Llywodraeth, ynghyd â rhanddeiliaid allanol. Rydym wedi cytuno ar ymrwymiad trawslywodraethol i gefnogi menywod ac wedi cytuno ar gyfres o gamau gweithredu a chanlyniadau dymunol a gynlluniwyd i sicrhau bod partneriaethau sefydledig yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae Cydlofnodwyr y Concordat[2] yn cytuno i'r ymrwymiad canlynol:

> **"Rydym yn ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i wella canlyniadau i fenywod sydd eisoes wedi dod ar draws y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Mae'r menywod hyn, y mae ganddynt anghenion lluosog a chymhleth sy'n benodol i'w rhyw yn aml, yn cynnwys rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, yn genedlaethol ac yn lleol, i fynd i'r afael ag anghenion y menywod hyn, gan atal argyfyngau rhag digwydd neu gan ymdrin â nhw'n effeithiol os ydynt eisoes wedi digwydd. Byddwn yn rhoi ein cefnogaeth ar y cyd i ymyrryd yn gynnar yn effeithiol ac atal troseddu, gan ganiatáu i fenywod weddnewid eu bywydau er budd eu dioddefwyr, eu teuluoedd, y gymdeithas ehangach, a'r menywod eu hunain.**
>
> **Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus perthnasol a phartneriaid cyflenwi ehangach, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn cydweithio i gefnogi menywod. Byddwn yn gwneud y pethau sydd o fewn ein gallu – yn unol â chylch gwaith a chwmpas priodol pob sefydliad – i hybu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, a ddylai arwain at:**
>
> - **lai o fenywod yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu;**

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/732833/female-offenders-strategy-welsh.pdf

[2] Gweler Atodiad A am restr o gydlofnodwyr gyda disgrifiad o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

- **llai o fenywod yn y ddalfa (yn enwedig ar ddedfrydau tymor byr) a chyfran uwch o fenywod a reolir yn llwyddiannus yn y gymuned; a**
- **amodau gwell i'r rhai sydd yn y ddalfa.**

**Ar y cyd, rydym yn dal ein hunain yn atebol am alluogi'r ymrwymiad hwn i gael ei gyflawni ledled Cymru a Lloegr.**

**Byddwn yn llunio adroddiad flwyddyn ar ôl cyhoeddi ynghylch sut yr ydym wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn."**

## Cwmpas

Nod y Concordat yw annog partneriaethau ar lefel genedlaethol a lleol, a rhwng y ddau. Ni fwriedir iddo ddisodli'r trefniadau cyfredol, lle mae'n gweithio'n dda, ond yn hytrach y nod yw adeiladu ar y rhain i wella'r cymorth presennol i fenywod.

Mae'r Concordat yn ystyried anghenion menywod sy'n oedolion ac nid yw'n cynnwys y system cyfiawnder ieuenctid oni nodir hynny'n benodol.

Mae'r Concordat yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae gan Gymru ei thirwedd ddeddfwriaethol a'i pholisi ei hun mewn meysydd megis iechyd, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, tai a llety, addysg a sgiliau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (gweler Pennod 3).

Nid ar y system cyfiawnder troseddol yn unig y mae pwyslais y Concordat, oherwydd ni fydd ymateb cyd-gysylltiedig yn effeithiol oni fydd yn cynnwys sefydliadau sy'n gyfrifol am faterion megis iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, lles a thai. Mae angen cynnwys pob un i gyflawni gwelliannau gwirioneddol (gweler Pennod 4, sy'n nodi'r achos dros y Concordat).

Mae tystiolaeth yn dangos mai asiantaethau a sefydliadau lleol, gydag arbenigedd a dealltwriaeth leol, sy'n gallu sbarduno newid mewn gwirionedd. Mae'r Concordat wedi ei gynllunio i gefnogi datblygiad partneriaethau lleol drwy gynnig enghreifftiau o dystiolaeth, cyngor ac arferion gorau (gweler Penodau 5 a 6). Anogir ardaloedd lleol i ddefnyddio'r adnoddau hyn fel y bo'n briodol i ddatblygu atebion lleol sydd wedi eu haddasu i anghenion lleol ac sy'n ymatebol iddynt.

# 2. Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol gyda'r Concordat

Mae ein hymrwymiad ar y cyd yn nodi sut y byddwn ni, yn gydlofnodwyr, yn mynd i'r afael ag anghenion lluosog a chymhleth menywod. Mae'r adran hon yn nodi'r canlyniadau y mae ymrwymiad o'r fath yn bwriadu eu cyflawni a'r camau manwl y credwn sydd eu hangen i lwyddo.

## Canlyniadau

Ar lefel uchel, ein nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, y cyfeirir ati yn yr ymrwymiad ar y cyd. Yn Atodiad B, rydym yn nodi metrigau i fesur y cynnydd ar gyfer pob un o'r canlyniadau hyn. Ym mwyafrif yr achosion, mae'r metrigau hyn wedi eu gwahanu fesul rhyw, a lle y bo hynny'n bosibl, maent wedi eu gwahanu fesul nodweddion gwarchodedig ac i lefel leol. Ochr yn ochr â'r Concordat, rydym wedi cyhoeddi offeryn data ardal leol ar *Tableau*, sy'n crynhoi'r metrigau sydd ar gael ar lefel leol. Gobeithiwn y bydd yr offeryn yn galluogi sefydliadau lleol i ddeall canlyniadau i fenywod yn eu hardal yn well, gan addasu eu gwaith yn unol â hynny. Er enghraifft, gallai sefydliadau lleol holi data arestio ac erlyn ar gyfer eu carfan, nodi'r math o droseddau sy'n digwydd yn eu hardal, ac yna cynllunio ymyriadau penodol o amgylch yr wybodaeth hon. Gobeithiwn y bydd ardaloedd lleol yn parhau i olrhain newidiadau yn y metrigau hyn, gan fonitro a fu ymyriadau'n llwyddiannus. Bydd yr holl fetrigau, gan gynnwys y rhai nad ydynt ar gael ar lefel leol, hefyd yn cael eu monitro ar lefel genedlaethol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, a fydd yn adrodd canlyniadau i gydlofnodwyr eraill a'r Bwrdd Cynghori ar Droseddwyr Benywaidd

## Camau gweithredu

Er mwyn gweithredu'r ymrwymiad ar y cyd a sicrhau gweledigaeth y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, ar lefel genedlaethol rydym yn ymrwymo i'r cynllun gweithredu isod. Er mwyn dwyn cydlofnodwyr i gyfrif, mae'n rhaid inni fod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth, gan ganiatáu i randdeiliaid mewnol ac allanol nodi pryd y mae cydlofnodwyr yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau. Ceir manylion am swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau ac adrannau'r Llywodraeth sy'n gydlofnodwyr y Concordat yn Atodiad A.

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei gyflawni? | Pwy sy'n gyfrifol? | Beth yw'r amserlen? | Sut y caiff ei adrodd? |
|---|---|---|---|---|
| **1. Adolygu ymateb y Llywodraeth i fenywod sy'n agored i niwed**: Defnyddio'r Bwrdd Cyflawni Troseddwyr Benywaidd dan arweiniad y Weinyddiaeth Amddiffyn, a sefydlwyd yn dilyn cyhoeddiad y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, fel y prif fforwm ar gyfer cyflawni ein hymrwymiad a rennir ac adrodd ar y cynnydd o'i gymharu â chanlyniadau y cytunwyd arnynt.<br><br>Bydd cynrychiolydd o bob cydlofnodwr yn bresennol yn y Bwrdd, a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd.<br><br>Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi adroddiad, yn archwilio'r gwaith sydd eisoes ar y gweill a bydd yn asesu'r ymateb trawslywodraethol cyfredol i fenywod, yn benodol drwy:<br>• archwilio a oes rhwystrau i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, gan gynnwys drwy geisio enghreifftiau o'r rheng flaen<br>• adolygu anghenion a'r ddarpariaeth gyfredol i nodi cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth effeithiol ar y pwynt cynharaf ar daith system cyfiawnder troseddol i fenywod.<br><br>Os bydd angen, bydd y Bwrdd Cyflawni yn comisiynu gwaith ychwanegol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cydweithrediad â llywodraeth ehangach, er mwyn sicrhau bod gofynion menywod ag anghenion lluosog a chymhleth yn cael eu | Cynrychiolwyr o bob cydlofnodwr (ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr, neu ddewis arall priodol) i fod yn bresennol ar gyfer y Bwrdd Cyflawni.<br><br>Cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn gwella canlyniadau i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol.<br><br>Y cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiad a rennir a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt i'w hadrodd yn y Bwrdd Cyflawni ac yn yr adroddiad "Flwyddyn Ymlaen". | Dylai pob cydlofnodwr i adrodd i'r Bwrdd Cyflawni a gweithio gydag ef. Y Weinyddiaeth Amddiffyn i fewngofnodi cofnodion a gweithredoedd pob Bwrdd Cyflawni.<br><br>Y Weinyddiaeth Amddiffyn i gomisiynu adroddiad ar waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gan bob cydlofnodwr.<br><br>Y Bwrdd Cyflawni i ystyried adroddiad y Weinyddiaeth Amddiffyn a phenderfynu a oes angen gwneud rhagor o waith, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cydweithrediad â llywodraeth ehangach, ynghylch menywod neu a ellir mynd i'r afael â'u hanghenion yn rhan o'r gwaith presennol. | Mae'r defnydd o'r Bwrdd Cyflawni yn parhau.<br><br>Adroddiad ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i'w gyhoeddi o fewn 4 mis o gyhoeddi Concordat.<br><br>Dylid ystyried yr adroddiad yn y Bwrdd Cyflawni, ar yr un pryd â'i gyhoeddiad. | Cofnodion sy'n seiliedig ar weithredu y Bwrdd Cyflawni i'w cyhoeddi ar-lein cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod.<br><br>Adroddiad ar y gwaith sydd ar y gweill i'w gyhoeddi ar-lein.<br><br>Dylai'r gwaith sydd wedi ei gwblhau yn seiliedig ar yr adroddiad hwn gael ei gyflwyno ar-lein yn yr adroddiad "Flwyddyn Ymlaen". |

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei gyflawni? | Pwy sy’n gyfrifol? | Beth yw’r amserlen? | Sut y caiff ei adrodd? |
|---|---|---|---|---|
| hystyried yn llawn ym mhob maes llunio polisïau cenedlaethol. | | | | |
| 2. **Ymateb i faterion sy’n dod i’r amlwg:** Ymateb yn gyflym ac yn hanfodol i faterion systemig/generig a godir gan randdeiliaid allanol, gan sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu deall a’u hystyried yn llawn. | Rhanddeiliaid allanol sy’n dymuno codi materion generig[3] o fewn cwmpas y Strategaeth a/neu’r Concordat i gysylltu â’r Weinyddiaeth Amddiffyn (yn cjwst@Justice.gov.uk).<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gydnabod y mater a hysbysu ai’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynteu cydlofnodwr arall fydd yn darparu ymateb.<br><br>Cydlofnodwyr dynodedig i ymateb yn hanfodol i’r rhanddeiliad ac adrodd yn ôl i’r Bwrdd Cyflawni. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i fonitro ac adrodd ar faterion a godwyd i’r cydlofnodwyr perthnasol.<br><br>Cydlofnodwyr i ymateb yn unol â hynny i faterion a godwyd ac adrodd ar gamau gweithredu i’r Bwrdd Cyflawni. | Ymateb i’w ddarparu o fewn mis i’w dderbyn. | Y materion a godwyd a’r camau a gymerwyd o ganlyniad i’w cyflwyno yn adroddiad “Flwyddyn Ymlaen” ar-lein. |
| 3. **Hyrwyddo cyflawniad lleol:** Hybu gwaith gan asiantaethau lleol a sefydliadau cyflawni, gan gynnwys eu hannog i roi cynnig ar ymyriadau newydd ac arloesol i gyflawni’r canlyniadau a ddymunir. | Cydlofnodwyr i rannu enghreifftiau o arferion gorau neu arloesedd ar lefel leol gyda’r Bwrdd Cyflawni, er mwyn caniatáu i ddulliau effeithiol gael eu mabwysiadu’n ehangach.<br><br>Cydlofnodwyr i gynorthwyo sefydliadau lleol (yn eu maes cyfrifoldeb) gyda gwaith i wella canlyniadau i fenywod, drwy hyrwyddo arferion gorau a rennir yn y Bwrdd Cyflawni. | Pob cydlofnodwr i nodi enghreifftiau o arferion gorau a dulliau gweithredu newydd yn rheolaidd, ac yna eu rhannu yn y Bwrdd Cyflawni.<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddogfennu enghreifftiau o arferion gorau a dulliau newydd a rennir yn y Bwrdd Cyflawni.<br><br>Pan fo hynny’n briodol, dylai pob cydlofnodwr rannu enghreifftiau o arferion gorau gyda’u hasiantaethau lleol a’u partneriaid cyflawni. | Mae hyn yn mynd rhagddo. | Gwybodaeth a gwaith cysylltiedig i’w cyflwyno yng nghofnodion y Bwrdd Cyflawni ar-lein ac yn adroddiad “Flwyddyn Ymlaen”. |
| 4. **Yn wybodus ynghylch Rhywedd a** | Cydlofnodwyr i nodi’r gweithluoedd yn eu priod | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi | Dylid cymryd camau | Camau a gymerwyd i’w |

[3] Noder: bwriedir defnyddio’r sianel gyfathrebu hon i godi materion generig neu systemig sy’n ymwneud â menywod sydd eisoes yn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o ymuno â hi ac nid ar gyfer codi achosion personol, y dylid parhau i’w dilyn gan ddefnyddio’r pwyntiau cyswllt arferol.

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei gyflawni? | Pwy sy'n gyfrifol? | Beth yw'r amserlen? | Sut y caiff ei adrodd? |
|---|---|---|---|---|
| **Thrawma gan fod yn ymatebol iddynt:** Cydnabod na fydd unrhyw ymateb i fynd i'r afael ag anghenion menywod yn wirioneddol effeithiol oni fydd yn cael ei lywio gan drawma a rhywedd ac yn ymatebol iddynt (diffinnir yn Adran 4).<br><br>Nodi'r angen am hyfforddiant sy'n cael ei lywio gan rywedd a thrawma, gan fod yn ymatebol iddynt, mewn gweithluoedd rheng flaen ac yn ceisio darparu hyfforddiant o'r fath, os yw hynny'n briodol. Os asiantaethau lleol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw, dylai cydlofnodwyr ymrwymo i hyrwyddo pwysigrwydd mabwysiadu dull gweithredu o'r fath, gan ddarparu tystiolaeth i esbonio effeithiolrwydd y dull hwn ac annog y broses o'i gyflwyno i'r holl staff sy'n cefnogi menywod sy'n agored i niwed. | feysydd cyfrifoldeb sydd â chysylltiad â menywod sydd eisoes yn y system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o ymuno â hi.<br><br>Os nodir bod angen hyfforddiant, dylai cydlofnodwyr sefydlu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r angen hwn. Pan fo hynny'n briodol, gallai hyn gynnwys defnyddio cyrff cynrychioliadol cenedlaethol i weithredu fel y sianel gyfathrebu ac ar gyfer darparu hyfforddiant i'r gweithluoedd.<br><br>Pob cydlofnodwr sydd â gwasanaethau rheng flaen sy'n gweithio gyda menywod sy'n agored i niwed i adrodd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch sut mae'r ymrwymiad hwn wedi ei gyflawni. | adnoddau hyfforddi a'u dosbarthu i bob cydlofnodwr.<br><br>Cydlofnodwyr i gymryd camau priodol i ledaenu gwybodaeth ac adnoddau hyfforddi i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'n lleol.<br><br>Cydlofnodwyr i roi gwybod am y camau a gymerwyd i'r Bwrdd Cyflawni. | gweithredu perthnasol o fewn 12 mis o gyhoeddi'r Concordat. | cyflwyno yn adroddiad "Flwyddyn Ymlaen" ar-lein. |
| **Data** | | | | |
| 5. **Casglu Data'n Genedlaethol:** Archwilio sut y gallai cydlofnodwyr gasglu data sy'n ehangu ein dealltwriaeth o brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan fodloni'r fframwaith deddfwriaethol a gofynion sy'n llywodraethu preifatrwydd data.<br><br>Gwahanu data a gesglir yn ôl rhywedd a nodweddion gwarchodedig eraill neu egluro pam nad yw hyn yn bosibl. Sicrhau bod rhagor o ddata ar gael ar | Y Bwrdd Cyflawni i gomisiynu arolwg o'r holl ddata cyfredol a gesglir sy'n berthnasol i'r garfan hon o fenywod.<br><br>Mewn ymateb, dylai cydlofnodwyr adrodd i'r Bwrdd Cyflawni ynghylch y data y maent yn eu casglu a sut y cânt eu gwahanu.<br><br>Y Bwrdd Cyflawni i herio cydlofnodwyr, nodi meysydd posibl y mae angen rhagor o waith casglu a gwahanu ynddynt, pan fo hynny'n briodol. | Y cydlofnodwyr i ymateb i arolwg y Bwrdd Cyflawni, gyda throsolwg cynhwysfawr o'r data a gesglir ganddynt.<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i arwain y gwaith o goladu gwybodaeth am y data a gasglwyd.<br><br>Y cydlofnodwyr i ymateb i gamau gweithredu sy'n deillio o arolwg y Bwrdd Cyflawni. | Dylid cwblhau'r arolwg ac ystyried y canlyniadau o fewn 6 mis o gyhoeddi'r Concordat.<br><br>Dylid gweithredu ar yr argymhellion yn ystod y 6 mis sy'n dilyn cyhoeddiad yr arolwg. | Dylid cyflwyno'r camau a gymerwyd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg yn adroddiad "Flwyddyn Ymlaen" ar-lein. |

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei gyflawni? | Pwy sy'n gyfrifol? | Beth yw'r amserlen? | Sut y caiff ei adrodd? |
|---|---|---|---|---|
| lefel leol (e.e. Ardal Heddlu, ardal Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, carchar) er mwyn gwella eu defnyddioldeb i sefydliadau lleol, neu unwaith eto, egluro eto pam nad yw hyn yn bosibl. | | | | |
| 6. **Rhannu Data'n Lleol:** Gweithio gydag asiantaethau lleol a sefydliadau cyflawni i ddatblygu cytundebau rhannu data lleol gyda phartneriaid lleol, pan fo hynny'n briodol ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a'r gofynion sy'n llywodraethu preifatrwydd data. | Y Bwrdd Cyflawni i lunio a dosbarthu canllawiau arferion gorau.<br><br>Y cydlofnodwyr i gyfrannu at y canllawiau arferion gorau, ynghylch casglu a rhannu data perthnasol.<br><br>Y cydlofnodwyr i rannu'r canllawiau hyn gyda'u hasiantaethau lleol a'u sefydliadau cyflawni. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i arwain y gwaith o goladu gwybodaeth ar gyfer y canllawiau arferion gorau.<br><br>Y cydlofnodwyr i gyfrannu at y canllawiau arferion gorau, a'u rhannu. | Dylid cyhoeddi'r canllawiau arferion gorau o fewn 6 mis o gyhoeddi'r Concordat, yna dylid eu rhannu'n eang. | Dylid cyhoeddi'r canllawiau arferion gorau ar-lein.<br><br>Gweithgarwch hyrwyddo i'w gyflwyno yn adroddiad "Flwyddyn Ymlaen" ar-lein. |
| 7. **Offeryn Data yr Ardal Leol:** Cyfrannu at gyhoeddi offeryn data, ochr yn ochr â'r Concordat, sy'n galluogi sefydliadau lleol i ddeall anghenion y menywod yn eu hardal yn well, gan addasu eu gwaith yn unol â hynny. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyhoeddi offeryn data gyda metrigau ar gael ar lefel leol.<br><br>Y Bwrdd Cyflawni i asesu gwerth a defnydd yr offeryn, a gweithredu yn unol â hynny. | Pan fo hynny'n briodol, dylai cydlofnodwyr rannu data perthnasol a gesglir ar lefel leol.<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i goladu data perthnasol gan gydlofnodwyr a chyhoeddi offeryn.<br><br>Y cydlofnodwyr i arolygu asiantaethau lleol a sefydliadau cyflawni ynglŷn â'r offeryn. | Dylid cyhoeddi offeryn data yr ardal leol gyda'r Concordat.<br><br>Dylid asesu'r offeryn data o fewn blwyddyn o gyhoeddi'r Concordat. | Dylid cyhoeddi'r offeryn data ar Tablau.<br><br>Dylid cyhoeddi asesiad o'r offeryn data yn adroddiad "Flwyddyn Ymlaen" ar-lein. |
| **Cyllid** | | | | |
| 8. **Buddsoddiad Cenedlaethol:** Datblygu perthnasoedd cryf ar draws y Llywodraeth a chwilio am ffyrdd mwy arloesol o gydgysylltu gweithgareddau, gan gynnwys ffrydiau gwaith ar y cyd a chyfleoedd ariannu ar y cyd, yn unol â chydymrwymiad a chanlyniadau'r Concordat. | Y Bwrdd Cyflawni i drefnu digwyddiad ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o bob un o'r cydlofnodwyr, sefydliadau'r sector gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, gan ganolbwyntio ar faterion gwerth am arian, cydweithio, chwalu seilos a gwella canlyniadau i fenywod. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i drefnu'r digwyddiad, a'r cydlofnodwyr i gefnogi'r gwaith trefnu yn ôl yr angen.<br><br>Y cydlofnodwyr i fod yn bresennol yn y digwyddiad, gan gymryd rhan ochr yn ochr â rhanddeiliaid. | Cynhelir y digwyddiad o fewn 9 mis o gyhoeddi'r Concordat. | Canlyniadau'r digwyddiad i'w cyflwyno yn adroddiad "Flwyddyn Ymlaen" ar-lein. |

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei gyflawni? | Pwy sy’n gyfrifol? | Beth yw’r amserlen? | Sut y caiff ei adrodd? |
|---|---|---|---|---|
| 9. **Buddsoddiad Lleol:** Annog asiantaethau lleol a sefydliadau cyflawni i fuddsoddi mewn gweithio mewn partneriaeth yn lleol fel y bo’n briodol. | Pan fo hynny’n briodol, dylai cydlofnodwyr goladu a rhannu dysg o’r Dulliau System Gyfan sydd eisoes yn bodoli er mwyn dangos y manteision o gyllid ar y cyd ar lefel leol. | Dylai pob cydlofnodwr goladu a rhannu dysg, yn enwedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder, oherwydd nhw sy’n arwain ar Ddulliau System Gyfan ar gyfer Troseddwyr Benywaidd. | Dylid rhannu dysg o’r amser pan gyhoeddir y Concordat ymlaen. | Y camau a gymerwyd a’r effaith i’w cyflwyno yn adroddiad “Flwyddyn Ymlaen” ar-lein. |
| **Monitro** | | | | |
| 10. **Adroddiad Cynnydd:** Cyhoeddi adroddiad flwyddyn ar ôl cyhoeddi’r Concordat sy’n manylu ar y camau a gymerwyd ac yn egluro effaith camau gweithredu o’r fath ar y canlyniadau a nodwyd. | Cyhoeddi adroddiad “Flwyddyn Ymlaen” ar-lein. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gydlynu’r gwaith o gynhyrchu adroddiad, gyda chyfraniadau oddi wrth bob cydlofnodwr. | Dylid cyhoeddi’r adroddiad flwyddyn ar ôl cyhoeddi’r Concordat. | Ei gyhoeddi ar-lein, ar adran Gweinyddiaeth Gyfiawnder y wefan gov.uk. |

# 3. Cyflawni Canlyniadau Cadarnhaol yng Nghymru

Caiff gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru eu darparu gan amrywiaeth o asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy’n cydweithio. Er bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfiawnder a phlismona, mae mwyafrif y gwasanaethau sy’n gysylltiedig â lles a gwydnwch menywod yng Nghymru wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Goblygiad hyn yw, er mai Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am reoli troseddwyr yn y gymuned a’r ddalfa, mae cefnogi gwasanaethau, gan gynnwys addysg, tai, camddefnyddio sylweddau, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac anghenion plant sy’n derbyn gofal i gyd wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru.

Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru – ‘Ffyniant i Bawb’[4] yn nodi’r blaenoriaethau allweddol a’r pum maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a sgiliau), sydd â’r potensial i wneud y cyfraniad mwyaf at ffyniant a lles hirdymor pobl yng Nghymru. Mae’r rhain yn feysydd y dangoswyd y gall ymyrraeth gynharach a gwasanaethau mwy ymatebol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae’r ymrwymiad i’r blaenoriaethau hyn, natur ddatganoledig meysydd polisi allweddol a’r dirwedd wahanol o ran deddfwriaeth a chyflawni yn cefnogi’r angen i ddatblygu dull gwahanol ac arwahanol o ymdrin â gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru sy’n gwneud y canlynol:

1. gwasanaethu oedolion a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol, neu mewn perygl o ymuno â hi, ac yn y gymuned ehangach;
2. cadw at uchelgais Cymru o wella lles a ffyniant tymor hwy dinasyddion a chymunedau; a
3. chefnogi’r gwaith o ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Goblygiad hyn yw yr ymdrinnir â menywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru drwy system gymhleth o wasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi eu datganoli:

- Mae’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru’n gyfrifol am yr holl wasanaethau rheoli troseddwyr, gan gynnwys y rhai yr aseswyd eu bod yn risg isel, canolig ac uchel. Mae Gwasanaethau Prawf Cymru, sy’n rhan o Gwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau adsefydlu i bobl ar

4 Llywodraeth Cymru (2019). Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

brofiannaeth (Rhaglenni Achrededig, Gwaith Di-dâl, a chymorth adsefydlu yn y gymuned i'r rhai sydd wedi bod yn y carchar).

- Mae menywod sy'n gwneud eu tymor mewn carchar wedi eu lleoli mewn carchardai yn Lloegr oherwydd nad oes carchar i fenywod yng Nghymru. Ym mwyafrif yr achosion, mae hyn yn CEM a STIau Eastwood Park neu Styal lle gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer carcharorion benywaidd o Gymru, gan gynnwys gwasanaethau ailsefydlu a ddarperir gan Cymru Fwy Diogel (darparwr sector gwirfoddol) ar ran Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.
- Cyflawnir gwasanaethau datganoledig, gan gynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai, drwy gymysgedd o Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd.
- Comisiynir rhai gwasanaethau arbenigol gan gyrff unigol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaethau megis Byrddau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau dargyfeirio, cymorth i ddioddefwyr, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac fe'u darperir yn bennaf gan amrywiaeth eang o ddarparwyr yn y sector gwirfoddol, sydd hefyd yn cynhyrchu cyllid drwy grantiau elusennol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae darpariaeth amlasiantaeth sydd â llinellau atebolrwydd deuol yn cyfrannu at dirwedd gyflenwi gymhleth a heriol. Mae cymhwyso polisi neilltuedig mewn cyd-destun datganoledig yn ychwanegu cymhlethdod, yn enwedig pan fo deddfwriaeth wahanol yng Nghymru.

Mae cymhlethdod y dirwedd yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i Gyfiawnder yng Nghymru gael ei gyflawni fel partneriaeth rhwng sefydliadau datganoledig a sefydliadau nad ydynt wedi eu datganoli. I gefnogi hyn, mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi datblygu Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd[5], a gyhoeddwyd ar 21 Mai 2019, ac sy'n cymeradwyo ac yn cefnogi'r angen am weithio mewn partneriaeth. Mae'r Glasbrint yn amlinellu gweledigaeth a fydd yn galluogi gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi eu datganoli i gydweithio i gyflawni gwasanaethau effeithlon ac effeithiol a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion a'r gymuned ac yn adeiladu ar y gwaith sy'n arwain y sector sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

Yng ngoleuni'r gwaith ar y cyd hwn, sy'n cyfochri ag egwyddorion y Concordat hwn, caiff cynnydd yng Nghymru ei gyflawni a'i adrodd o'i gymharu â fframwaith y glasbrint yn hytrach na'r ddogfen hon.

Mae Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru ar gael yma: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/female-offending-blueprint_3.pdf

[5] Gweinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019). Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cefnogi-troseddwyr-benywaidd

# 4. Yr Achos dros Goncordat

Nododd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd pam fo angen dull gweithredu gwahanol i fynd i'r afael ag anghenion lluosog a chymhleth menywod[6]. O'i gymharu â dynion yn y system cyfiawnder troseddol, mae menywod ar gyfartaledd yn cyflawni troseddau llai difrifol ac sy'n peri llai o risg o niwed difrifol i'r cyhoedd yn aml[6,7]. Hefyd, yn amlach na dynion, maent yn brif ofalwyr pan fônt yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, sy'n golygu bod troseddoli menywod yn debygol o gael rhagor o effaith ar deuluoedd a phlant[8].

Er bod y gyfradd aildroseddu ymhlith menywod yn is na'r hyn ar gyfer dynion[9,10,11], mae nifer cyfartalog yr aildroseddau fesul aildroseddwr yn uwch[9,10,12], sy'n awgrymu bod carfan o fenywod sy'n cyflawni troseddau lefel isel, ond parhaus, megis dwyn o siopau. Hefyd, gallai menywod ag anghenion lluosog a chymhleth fod â ffyrdd o fyw anhrefnus sy'n gofyn am ddefnyddio gwasanaethau nifer o weithiau. Am y ddau reswm hyn, mae rheoli menywod sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn gostus - y gost o reoli'r garfan hon i'r Llywodraeth yn 2015/16 oedd oddeutu £1.7 biliwn, gan gynnwys costau amcangyfrifiedig yr heddlu o oddeutu £1 biliwn[13]. Nid yw'r gost hon yn cynnwys costau cymdeithasol ehangach, megis cost troseddu rhwng cenedlaethau, a allai fod yn sylweddol.

6 Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, tudalen 6. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

7 Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

8 Lord Farmer (2019). The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809467/farmer-review-women.PDF

9 MOJ (2020). Proven reoffending statistics: January to March 2018. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-january-to-march-2018

10 MOJ (2020). Women in the CJS: Local Data Tool. Ar gael yn: https://public.tableau.com/profile/ciaran3881#!/vizhome/WomenintheCJSLocalDataTool2019/WomenintheCJSLocalDataTool

11 Y gyfradd aildroseddu ar gyfer menywod oedd 23.4% rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, o'i chymharu â chyfradd o 29.6% ar gyfer dynion yn ystod yr un cyfnod.

12 Cyfartaledd nifer yr aildroseddau fesul aildroseddwr ar gyfer menywod oedd 4.33 rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, o'i chymharu â chyfartaledd o 3.99 ar gyfer dynion yn ystod yr un cyfnod.

13 Amcangyfrifon y llywodraeth o gyfanswm y costau i'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â throseddwyr benywaidd yn 2015/16 [o'r heddlu hyd at ddiwedd dedfryd], gan ddefnyddio cyfuniad o wahanol ffynonellau data a thybiaethau. Amcangyfrifon lefel uchel yw'r rhain, gan ddefnyddio llawer o ddata cyhoeddedig a data nas cyhoeddwyd, a cheir ansicrwydd mawr ynghylch nifer o'r amcangyfrifon costau a gynhwysir.

Noda "Y Ddadl o Blaid Newid" yn Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn:

- Mae troseddoli unigolion sy'n agored i niwed yn cael effeithiau cymdeithasol negyddol ehangach, oherwydd gallai menywod sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ei chael yn anodd diwallu eu hanghenion a dianc rhag eu ffyrdd anhrefnus o fyw.
- Nid yw dedfrydau byr o garchar yn sicrhau'r canlyniadau gorau i droseddwyr benywaidd, gyda 70.7% o fenywod yn aildroseddu yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn dedfryd o garchar o lai na 12 mis[14].
- Mae rheoli cymunedol da yn gweithio, gyda dedfrydau cymunedol yn caniatáu i fenywod ymgysylltu'n briodol ag ystod eang o wasanaethau a mynd i'r afael yn well â'u hanghenion.

Nod yr adran hon yw diffinio anghenion cymhleth, sut y gallent ryngweithio â nodweddion gwarchodedig, a sut y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion o'r fath yn well drwy gymryd dull cyfannol, sy'n cael ei lywio gan rywedd a thrawma ac sy'n ymatebol iddynt.

## Beth yw anghenion cymhleth?

Yn 2013, yn rhan o'i ymchwiliad i anghenion cymhleth, cynhyrchodd All Party Parliamentary Group on Complex Needs and Dual Diagnosis ddiffiniad o anghenion cymhleth[15]:

- Person ag 'anghenion cymhleth' yw rhywun sydd â dau neu fwy o anghenion sy'n effeithio ar ei les corfforol, meddyliol, cymdeithasol neu ariannol.
- Fel arfer, mae anghenion o'r fath yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn gwaethygu ei gilydd gan arwain at unigolion sy'n cael sawl problem ar yr un pryd.
- Mae'r anghenion hyn yn ddifrifol yn aml a/neu'n hirsefydlog, ac yn aml, maent yn anodd eu nodi a'u cefnogi.
- Yn aml, mae unigolion ag anghenion cymhleth yn cyrraedd argyfwng, neu maent yn agored i hynny, ac yn profi rhwystrau i gael gafael ar wasanaethau; fel arfer, mae arnynt angen cymorth gan ddau neu fwy o wasanaethau/asiantaethau.
- Bydd rhywun y disgrifir bod ganddo anghenion lluosog a chymhleth yn profi cyfuniad o ddau neu fwy o'r canlynol (er nad ydynt yn gyfyngedig i hynny):
    - Problemau iechyd meddwl
    - Problemau camddefnyddio sylweddau
    - Diagnosis deuol o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau
    - Cyflwr iechyd corfforol
    - Anabledd dysgu

---

[14] Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

[15] APPG on Complex Needs and Dual Diagnosis (2014). Factsheet 1: Complex Needs and Dual Diagnosis. Ar gael yn: https://www.turning-point.co.uk/_cache_1d62/content/appg_factsheet_1_-_june_2014-5090910000019641.pdf

- Hanes o ymddygiad troseddol
- Anabledd corfforol
- Problemau cyflogaeth
- Problemau digartrefedd neu dai
- Anawsterau teuluol neu berthynas
- Cam-drin domestig
- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Tlodi
- Trawma (corfforol, seicolegol neu gymdeithasol)

Nododd adroddiad gan Lankelly Chase, o'r enw "Gender Matters", bedwar o'r anghenion hyn sy'n rhoi menywod dan anfantais fwy arwyddocaol, sef: digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael, a thrais a cham-drin[16]. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod oddeutu 17,000 o oedolion yn Lloegr bob blwyddyn yn profi pob un o'r pedwar angen sylfaenol hyn, gyda 70% o'r boblogaeth hon yn fenywod. Roedd menywod sydd wedi cael cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol yn llawer mwy tebygol o adrodd am brofiad o bob un o'r anghenion sylfaenol hyn o'u cymharu â dynion sydd wedi cael cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol, yn fwyaf amlwg oherwydd profiad o drais a cham-drin. Mae'r adroddiad yn amlygu hefyd fod yr anghenion hyn yn proffilio'n wahanol gan ddibynnu ar oedran, ethnigrwydd, statws rhiant, a nodweddion gwarchodedig eraill.

## Nodweddion Gwarchodedig

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010[17] yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac mae'n hybu cymdeithas deg a mwy cyfartal. Mae yn erbyn y gyfraith gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol

Gallai menywod â nodweddion gwarchodedig neu garfanau eraill sy'n agored i niwed brofi'r system cyfiawnder troseddol yn wahanol i droseddwyr eraill, gan fod â rhwystrau ychwanegol rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, yn 2017/18 roedd

[16] Bramley et al. (2020). Gender Matters. Lankelly Chase. Ar gael yn: https://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/Gender-Matters-full-report-Feb-2020.pdf

[17] Equality Act 2010. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

menywod du dros ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu harestio o’u cymharu â menywod gwyn[18]. Felly, efallai y bydd menywod â nodweddion gwarchodedig yn ei chael yn anos mynd i’r afael â’u hanghenion lluosog a chymhleth. Mae Atodiad C yn manylu ar y rhwystrau a wynebir gan fenywod sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, ac yn awgrymu arferion gorau i liniaru y rhain gan ddiwallu eu hanghenion.

## Dull Gwahanol o Ymdrin ag Anghenion Cymhleth

Bydd menyw ag anghenion lluosog a chymhleth yn debygol o fod yn gallu defnyddio gwahanol wasanaethau cyhoeddus ond, yn aml, nid ydynt yn cael eu hystyried yn gyfannol ar draws y gwasanaethau hyn[19]. Yn aml, mae menywod yn dod ar draws y system cyfiawnder troseddol ar ôl cael ymyriadau blaenorol gan wasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus neu’r sector gwirfoddol, er y byddai’r rhain yn debygol o fod ar wahân. Gall darparu gwasanaethau mewn seilos olygu bod anghenion menywod yn cael eu hasesu’n unigol ac nad oes yr un angen unigol yn bodloni’r trothwy ar gyfer gwasanaeth penodol, er bod ganddynt angen cyffredinol difrifol[20]. Mae rhai gwasanaethau, sef canolfannau menywod, yn cefnogi menywod yn fwy cyfannol, fodd bynnag mae argaeledd gwasanaethau o’r fath ledled Cymru a Lloegr yn dameidiog ac nid yw bob amser yn cyfateb i’r galw. Mae’n bwysig sicrhau, pan fo menyw yn dod ar draws unrhyw wasanaeth cyhoeddus, y gellir adnabod bod ganddi anghenion cymhleth eraill sy’n benodol i’w rhywedd, yn ogystal â’r angen sylfaenol y mae’r gwasanaeth yn mynd i’r afael ag ef. Yn gynnar, mae’n bwysig bod yr holl anghenion yn cael eu deall ac yna eu diwallu, gan gyfeirio menywod at y gwasanaethau perthnasol gyda throsglwyddiad di-dor.

Gallai diffyg gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth rhwng sefydliadau achosi trallod i fenywod sydd eisoes yn agored i niwed. Er enghraifft, efallai y bydd menywod sy’n cyflwyno profiadau trawmatig yn y gorffennol yn ei chael yn anodd siarad am y trawma hwn. Gyda gwasanaethau seilo, efallai y bydd yn rhaid i fenywod ailadrodd eu trawma i bob gwasanaeth y maent yn ei ddefnyddio. Trwy wneud hynny, boed ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth budd-daliadau, llety neu wasanaethau i ddioddefwyr, gallai menywod deimlo’n siomedig, yn rhwystredig, neu fod wedi dioddef trawma o’r newydd gan y system. Gallai’r profiad hwn beri i fenyw ddatgysylltu oddi wrth wasanaethau ategol gan waethygu nes cyrraedd argyfwng, a phryd hynny, mae hi’n dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol. Gall argyfwng o’r fath ddigwydd hefyd os yw menyw yn methu â gweddu’n dda i wasanaeth cyhoeddus, er enghraifft, os na ellir lletya

[18] Home Office (2020). Arrests. Ar gael yn: https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/policing/number-of-arrests/latest

[19] Baroness Jean Corston (2007). The Corston Report: A Report by Baroness Jean Corston of a Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System.

[20] Making Every Adult Matter (2017). Multiple Needs. Time for Political Leadership. Ar gael yn: https://www.clinks.org/sites/default/files/2018-10/multiple-needs-time-for-political-leadership.pdf

dioddefwr cam-drin domestig mewn lloches i fenywod oherwydd ei bod yn ddefnyddiwr cyffuriau.

Fodd bynnag, mae mynd i'r afael ag anghenion lluosog a chymhleth menywod yn gofyn am fwy na gwell cydweithredu rhwng gwasanaethau cefnogol. Mae'n rhaid i bob gwasanaeth ategol ddeall bod profiad unigolyn (e.e. iechyd corfforol a meddyliol) yn debygol o fod yn benodol i rywedd ac wedi ei siapio gan drawma hanesyddol. Yna, mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon o brofiadau unigolyn cyn y daeth ar draws y gwasanaeth er mwyn ymateb yn unol â hynny a lleihau'r posibiliadau o ddioddef trawma ac erledigaeth o'r newydd. Mae'r Concordat yn ymrwymo cydlofnodwyr i gydnabod y bydd ymateb effeithiol i anghenion lluosog a chymhleth menywod yn cael ei lywio gan **rywedd a thrawma**:

- Mae **dull sy'n cael ei lywio gan rywedd** yn un sy'n deall bod menywod yn cael profiadau arbennig yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn y gymdeithas ehangach. Tynnodd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd sylw at rai o'r gwahaniaethau hyn a phwysleisiodd fod angen ymyriadau gwahanol ar fenywod er mwyn diwallu eu hanghenion penodol. Mae cymdeithasu plant yn oedolion yn digwydd mewn ffordd sy'n seiliedig ar rywedd ac, o ganlyniad, mae profiadau merched a bechgyn, a dynion a menywod ar ôl hynny, yn wahanol. Mae angen i'r gwasanaethau a ddarperir gydnabod y gwahaniaethau hyn a chynhyrchu **ymateb priodol sy'n cael ei lywio gan rywedd**. Er enghraifft, wrth ystyried ein dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus, ni fydd cael grŵp y mae pob aelod ohono yn fenyw i ymgymryd â rhaglen neu ymyriad a gynlluniwyd ar gyfer dynion yn diwallu anghenion y menywod y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw.
- Mae **dull sy'n cael ei lywio gan drawma** yn un sy'n deall bod trais, cam-drin a thrawma hanesyddol (e.e. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) yn dylanwadu'n gryf ar iechyd, iechyd meddwl ac ymddygiad unigolyn. Yna, mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i wasanaeth ddatblygu **ymateb sy'n cael ei lywio gan drawma** i'w ddefnyddwyr gwasanaeth, y bydd llawer ohonynt wedi profi trawma o'r fath. Er enghraifft, gallent osgoi sbarduno sefyllfaoedd, megis synau uchel neu ddicter, ac osgoi achosi trawma i'r unigolyn o'r newydd.

Trwy ymwreiddio'r dulliau hyn mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni gwasanaethau'n fwy cyfannol a sensitif, gall gwasanaethau feithrin amgylchedd nad yw'n stigmateiddio menywod ac sy'n darparu man cefnogol lle gallent ddatgelu eu hanghenion. Dim ond trwy chwalu'r rhwystrau hyn y mae menywod yn dod ar eu traws wrth ddefnyddio gwasanaethau y gall y gwasanaethau obeithio diwallu anghenion lluosog a chymhleth yn well, a lleihau'r risg o droseddoldeb.

## Plant, Teuluoedd ac Unigolion Eraill o Bwys

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn brif ofalwyr pan fônt yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol. Mae troseddoli a charcharu menywod beichiog a mamau yn cael

effaith ddwys a hirdymor ar eu teulu a’u plant. O ystyried y dystiolaeth amlwg mai dim ond 5% o blant sy’n aros yng nghartref y teulu pan fo mam yn mynd i’r ddalfa, mae’n hanfodol cydnabod yr effaith hon yn y dull o reoli menywod yn y system cyfiawnder troseddol[21].

Nid yw cefnogi’r fath fenywod i gryfhau a datblygu perthnasoedd yn syml o ystyried eu bod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn perthnasoedd camdriniol[22] a/neu heb ddigon o gefnogaeth[23]. Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, comisiynodd y Llywodraeth yr Arglwydd Farmer i gynnal adolygiad o bwysigrwydd cysylltiadau teuluol a perthynol, o safbwynt menywod. Mae adolygiad yr Arglwydd Farmer yn hyrwyddo dull cydgysylltiedig o reoli menywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod y cymhlethdod o fynd i’r afael ag anghenion perthynas y fam a’r plentyn. Heblaw hynny, mae’n galw’n benodol am i’r Concordat hwn dynnu sylw at y swyddogaeth y gall canolfannau menywod ei chwarae wrth gyflawni dulliau systemau cyfan, wrth archwilio cyfleoedd i ddwyn ynghyd gyllid trawslywodraethol ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu cyflawni ac wrth dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da.

---

21 Home Office (1997) Imprisoned Women and Mothers, Home Office Research Study 162, London.

22 Mae bron i 60% o fenywod sydd yn y ddalfa ac sy’n cael eu goruchwylio yn y gymuned wedi profi cam-drin domestig. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719768/infographic-for-the-female-offender-strategy.pdf

23 Nododd adroddiad System Asesu Troseddwyr ym mis Gorffennaf 2019 mai perthnasoedd gwael oedd yr angen troseddogenig mwyaf cyffredin ar fenywod a reolir yn y gymuned a’r ddalfa.

# 5. Cyflawni Canlyniadau Cadarnhaol yn Lleol

Ar ôl nodi ein hymrwymiad a’r canlyniadau a dymunir gennym ar lefel genedlaethol, mae gweddill y ddogfen hon yn ystyried camau gweithredu ar gyfer sicrhau gwell canlyniadau ar lefel leol. Mae’r adrannau a ganlyn yn cynnwys tystiolaeth, cyngor ac enghreifftiau o arferion gorau y bwriedir y byddant yn ysgogi newid i fenywod, gan gydnabod y canlynol:

- mae pob ardal leol yn wahanol;
- ni fydd unrhyw ddull unigol yn diwallu angen pob ardal a bydd angen i atebion ystyried ffactorau lleol;
- mae tystiolaeth yn awgrymu bod Dull System Gyfan amlasiantaeth sy’n cynnig cymorth cyfannol drwy ddarparu gwasanaethau lleol sydd wedi eu cydgysylltu’n llwyr yn allweddol i sicrhau gwell cymorth a chanlyniadau;
- nod Dull System Gyfan ar gyfer troseddwyr benywaidd yw asesu anghenion menyw yn ystod ei chyswllt cyntaf â’r system cyfiawnder troseddol, a darparu cymorth amlasiantaeth sy’n ymatebol i rywedd; ac
- y bwriad yw defnyddio adnoddau presennol yn wahanol er mwyn targedu cymorth yn fwy effeithiol, gan osgoi bylchau a/neu ddyblygu wrth ddarparu gwasanaethau, a chefnogi menywod i gael gafael ar ddarpariaeth yn llwyddiannus fel y gallent weddnewid eu bywydau. Felly, dylai Dull System Gyfan effeithiol ddargyfeirio menywod oddi wrth y system cyfiawnder troseddol pan fo hyn yn briodol a lleihau aildroseddu a’r galw ar wasanaethau.

## Beth yw Dull System Gyfan?

Fel arfer, mae gan Ddull System Gyfan sawl nodwedd allweddol, gan wneud y canlynol:

- hybu gwaith amlasiantaeth sy’n cynnwys asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau statudol eraill (yn enwedig y rhai sy’n ymwneud ag iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau; llety; cam-drin domestig; a chyflogaeth), a gwasanaethau menywod y sector gwirfoddol;
- adeiladu ar dirwedd leol a’r broses o weithio mewn partneriaeth sydd eisoes yn bodoli;
- creu llywodraethu cryf er mwyn ymwreiddio arferion gwaith newydd a sicrhau cydweithrediad parhaus;
- defnyddio dull sy’n cael ei lywio gan rywedd a thrawma gan fod yn ymatebol iddynt, sy’n gofyn am ddealltwriaeth o’r anfanteision sy’n benodol i rywedd a wynebir gan fenywod sy’n defnyddio gwasanaethau ac effaith trais, cam-drin a thrawma yn y gorffennol ar y menywod hyn; a

- gwneud ymrwymiad ar y cyd ymhlith asiantaethau partner er mwyn osgoi dyblygu gwaith yn ddiangen drwy well cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chydweithio cysylltiedig.

## Yr Achos dros Ddull System Gyfan

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi mabwysiadu model y Dull System Gyfan yn ehangach er mwyn gwella canlyniadau i fenywod. Mae Manceinion Fwyaf yn enghraifft o'r Dull System Gyfan amlasiantaeth ar gyfer menywod[24], a ddaeth yn gwbl weithredol ym mis Ionawr 2015. Mae'r Dull System Gyfan yn gweithredu fel cynghrair o 8 canolfan i fenywod ar draws 10 awdurdod, gydag elusen Dull System Gyfan annibynnol yn goruchwylio. Er na ellir dod i'r casgliad bod y Dull System Gyfan wedi cael effaith uniongyrchol, mae Manceinion Fwyaf wedi gweld y canlyniadau canlynol:

- Roedd gan 91% o fenywod a aseswyd yn Null System Gyfan Manceinion Fwyaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 anghenion lluosog.
- Gostyngiad o 57% yn nifer y menywod sy'n oedolion a arestiwyd ym Manceinion Fwyaf rhwng 2014/15 a 2018/19, o'i gymharu â gostyngiad o 32% ar gyfer Cymru a Lloegr[25].
- Gostyngiad o 14% yn nifer y menywod sy'n oedolion a erlynwyd rhwng 2014 a 2019, o'i gymharu â gostyngiad o 10% ar gyfer Cymru a Lloegr[26].
- Gostyngiad o 44% yn nifer y menywod sy'n oedolion a ddedfrydwyd i'r ddalfa ar unwaith rhwng 2014 a 2019, o'i gymharu â gostyngiad o 21% ar gyfer Cymru a Lloegr[26].
- Gostyngiad o 20% yn y gyfradd aildroseddu ers 2014/15 i gyfradd o 15.3% yn 2017/18, o'i gymharu â chynnydd o 5% yng Nghymru a Lloegr i gyfradd o 23.4% yn 2017/18[26].
- Daeth gwerthusiad a gynhaliwyd gan Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf ynghylch ei Ddull System Gyfan yn Bury a rhaglen Women of Worth i'r casgliad y gellid arbed oddeutu £5.70 am bob £1 a fuddsoddir yn y prosiect. O'r manteision hyn, cynigiwyd bod 27% o'r manteision yn dod i ran asiantaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder/system cyfiawnder troseddol (ac eithrio'r heddlu), bod 20% yn dod i ran Awdurdodau Lleol, bod 28% o'r manteision yn dod i ran Iechyd a bod 24% o'r manteision yn dod i ran yr heddlu.

---

24 MOJ (2018). A Whole System Approach for Female Offenders. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719771/guide-to-whole-system-approach.pdf

25 MOJ (2020). Women in the CJS: Local Data Tool. Ar gael yn: https://public.tableau.com/profile/ciaran3881#!/vizhome/WomenintheCJSLocalDataTool2019/WomenintheCJSLocalDataTool

26 MOJ (2020). Geographic data tool, April 2017 to March 2018. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-january-to-march-2018

Yn yr un modd, canfu tystiolaeth o werthusiad cynllun dargyfeirio menywod Cymru gyfan ar gyfer yr heddlu[27] a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru (un agwedd ar Ddull System Gyfan Cymru) y canlynol:

- O'u cymharu â menywod o ardaloedd yng Nghymru lle nad oedd y Cynllun yn gweithredu, canfuwyd bod gan fenywod a ddargyfeiriwyd gyfradd aildroseddu (20% o'i chymharu â 27%) a chyfradd ail-arestio is profedig (18% o'i chymharu â 35%).
- Canfuwyd bod y menywod a ddargyfeiriwyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'u hanghenion troseddogenig. Roeddent yn gweld gwelliannau yn eu gwydnwch a'u lles cyffredinol ac yn adrodd gwelliannau hefyd o ran eu tueddiad i weithredu'n fyrbwyll a'r problemau ymarferol yr oeddent yn eu hwynebu.
- Dangosodd dadansoddiad o gostau a manteision y Cynllun fod pob £1 a wariwyd wedi arbed £2 mewn costau plismona.

[27] Holloway et al. (2017). Evaluation of the Pan-Wales Women's Triage (The Diversion Scheme). Ar gael yn: https://wccsj.ac.uk/images/docs/publications/2017/WilliamsHollowayBrayford_Womens_Pathfinder.pdf

# 6. Sut i Sefydlu Dull System Gyfan

## Beth yw'r hanfodion allweddol mewn Dull System Gyfan llwyddiannus?

Nid oes un agwedd sy'n addas i bawb wrth sefydlu Dull System Gyfan llwyddiannus a bydd angen ystyried ffactorau lleol penodol wrth gynllunio Dull System Gyfan newydd. Mae Uned Weithredu yr Weinyddiaeth Gyfiawnder a meysydd presennol y Dull System Gyfan wedi nodi sawl egwyddor allweddol sy'n tanategu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth:

Cynllunio – ffyrdd effeithiol o ddatblygu strategaethau ar y cyd ar draws nifer o asiantaethau

- **Cydweithio er mwyn datblygu gweledigaeth glir** ac ailadrodd hyn yn aml ar bob lefel o'r bartneriaeth. Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu, er mwyn lleihau aildroseddu a chadw menywod yn ddiogel, y dylai ymyriadau gael eu llywio gan **rywedd a thrawma, gan fod yn ymatebol iddynt**, ac y dylent fynd i'r afael â saith maes blaenoriaeth: camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, rheoli emosiynau, hunaniaeth gymdeithasol, rheoli bywyd bob dydd, cyswllt teuluol da ac adsefydlu, a chreu cyfalaf cymdeithasol.
- Datblygu dealltwriaeth sy'n seiliedig **ar dystiolaeth o'r angen lleol.** Dylid cynllunio Dulliau System Gyfan gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys tystiolaeth o Ddulliau System Gyfan cyfredol. Er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth hon ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig ystyried canlyniadau disgwyliedig Dull System Gyfan o'r cychwyn cyntaf, sut y caiff ei lwyddiant ei werthuso, a'r data y mae angen eu casglu.
- **Dangos yr arbedion posibl ar draws y system** o fuddsoddi mewn darpariaeth yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n agored i niwed.
- Sicrhau bod **cefnogaeth uwch a gwleidyddol** i wella canlyniadau i fenywod.

Strwythurau – strwythurau a fframweithiau sy'n ymwreiddio gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

- Sefydlu **llywodraethu lleol cadarn**, gan ddefnyddio strwythurau partneriaeth cyfredol o bosibl, sy'n cyfrannu at yr uwch fyrddau llywodraethu cyfiawnder. Mae cymorth strategol uwch yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu hadnabod, a bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi'n briodol.
- **Gwahanu'r hyn sy'n strategol oddi wrth yr hyn sy'n weithredol** mewn byrddau partneriaeth er mwyn sicrhau nad yw cynlluniau hirdymor yn cael eu troi i'r neilltu gan faterion dyddiol.

- Cymryd **ymagwedd gydweithredol, system gyfan tuag at gomisiynu**, deall mandadau ac amcanion partneriaid sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Pwysleisio’r cydgyfrifoldeb sydd gan gomisiynwyr i fuddsoddi yn seilwaith Dull System Gyfan, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.
- Cynnwys **darparwyr a sefydliadau’r sector gwirfoddol** ym mhob cam o’r broses gynllunio er mwyn sicrhau’r gefnogaeth fwyaf bosibl oddi wrth amrywiaeth o bartneriaid. Gydag unrhyw Ddull System Gyfan, bydd partneriaid yn meddwl yn wahanol neu bydd ganddynt ymagweddau gwahanol. Fodd bynnag, drwy gynnal sianeli cyfathrebu da rhwng yr holl asiantaethau dan sylw a thrwy ddilyn proses benodol y cytunwyd arni ymlaen llaw, gellir datrys unrhyw faterion neu heriau wrth wneud penderfyniadau yn haws. Elfen allweddol o ymgysylltu fydd creu ymdeimlad cyffredin o gyfrifoldeb dros bob menyw unigol, gan sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo menyw o un gwasanaeth i’r llall yn cael ei gyflawni’n dda. Efallai fod cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng gwasanaethau, oherwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth eraill; dylid defnyddio’r rhain ac adeiladu arnynt pan fo hynny’n bosibl.

<u>Arferion</u> – arferion gweithredol allweddol sy’n hwyluso’r gwaith o ddatblygu diwylliant cydweithredol

- **Creu timau amlddisgyblaethol** ac annog gweithio hyblyg ar draws lleoliadau. Pan fo hynny’n briodol, gall cyd-leoli gwasanaethau gryfhau perthnasoedd a chydweithrediad, er enghraifft mewn canolfan i fenywod, sydd wedyn yn cynnig “siop un stop” i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Darparu canllawiau clir a systemau symlach ar gyfer **rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau**, yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y bydd gwasanaethau cydgysylltu yn gofyn am rannu gwybodaeth bersonol, naill ai drwy e-bost diogel neu ar feddalwedd amlasiantaeth a rennir. Datblygu mesurau perfformiad cadarn y gellir eu monitro a’u rhannu gyda phartneriaid Dull System Gyfan.
- Datblygu llwybrau defnyddiwr clir i **helpu defnyddwyr i lywio’r system.** Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylai partneriaid statudol a gwirfoddol ddeall amgylchiadau ac anghenion eu defnyddwyr yn drylwyr, mewn cysylltiad â’r gwasanaeth y mae’r partner yn ei ddarparu ac mewn cysylltiad â’r system gyfan. Dylai partneriaid ddefnyddio’r wybodaeth hon i weithio allan gofynion y Dull System Gyfan, gan sicrhau bod ei system a’i wasanaethau’n ddefnyddiol, yn ddefnyddiadwy (yn cael eu deall yn dda a bod defnyddwyr yn gallu cael gafael arnynt yn rhwydd), ac yn ymgysylltiol. Bydd hyn yn gofyn am waith partneriaeth effeithiol ac amcanion a rennir, er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio yn ei chyfanrwydd, a strwythurau llywodraethu cadarn, er mwyn dwyn partneriaid i gyfrif ynghylch darparu gwasanaethau. Mae Dull System Gyfan Gorllewin Mercia wedi ymgorffori cynllun sy’n canolbwyntio ar y defnyddiwr drwy ddefnyddio cynllun gofal ac adfer manwl y mae’r defnyddiwr gwasanaeth yn berchen arno gan fynd ag ef gydag ef i wahanol wasanaethau, er mwyn atal ailasesiadau ac ailadrodd straeon personol ym mhob lleoliad newydd.
- Adnabod arferion gorau ar lefel leol a **rhannu straeon llwyddiant**.

## Beth yw'r camau cyntaf wrth sefydlu Dull System Gyfan?

Er ei bod yn debygol y bydd amrywiaeth leol yn y camau penodol a gymerwyd, neu yn eu trefn o leiaf, yn gyffredinol, dilynodd yr ardaloedd Dull System Gyfan presennol raglen debyg i ddechrau. Roedd hyn yn cynnwys:

- **Dewis arweinydd prosiect** – cael tîm prosiect, neu swyddog o leiaf, i annog y gwaith o ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, o rannu gwybodaeth ac adnoddau, ac i fonitro'r broses o gyflawni prosiectau.
- **Cwmpasu a mapio** – adolygu'r gwasanaethau presennol, yn ogystal â defnyddio tystiolaeth leol (e.e. data arestio a dedfrydu lleol) i nodi anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn yr ardal a ble mae bylchau yn y ddarpariaeth.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** – codi ymwybyddiaeth drwy ddigwyddiadau, yn ogystal â chyfathrebu â phartneriaid yn uniongyrchol ac ar-lein, i dynnu sylw at gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn agosach a'r potensial o gyd-leoli gwasanaethau i fenywod.
- **Nodi strwythurau llywodraethu** – cael arweinyddiaeth, goruchwyliaeth strategol a chyfeiriad cyffredinol cryf er mwyn sicrhau bod y Dulliau System Gyfan yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- **Creu gweledigaeth ac amcanion craidd** – creu gweledigaeth ac amcanion i'w defnyddio ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid eraill.

## Pwy ddylai arwain?

Mae gwahanol feysydd Dull System Gyfan wedi dilyn modelau arweinyddiaeth gwahanol. Mae rhai wedi dod o hyd i'w harweinydd prosiect o'r sector statudol (e.e. Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu), ac mae eraill wedi cael arweinydd prosiect o'r sector gwirfoddol (e.e. canolfan i fenywod). Nid yw arweinyddiaeth o un sector yn well na'r llall yn y bôn, ac mae'r ddau fodel wedi arwain at ganlyniadau llwyddiannus. Mae'r meysydd Dull System Gyfan wedi cydnabod y manteision canlynol ar gyfer pob model:

- Y sector statudol:
  - Yn aml, mae cyllid yn fwy dibynadwy yn y sector statudol, sy'n rhoi gwell adnoddau i'r prosiect a chan hynny, rhagor o gadernid. Mae llawer o brosiectau Dull System Gyfan dan arweiniad y sector statudol wedi cael arian ychwanegol oddi wrth y sector (e.e. arian cyfatebol oddi wrth Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn Null System Gyfan Sussex).
  - Mae'n haws adnabod enw da arweinydd o'r sector statudol ymhlith gwahanol sefydliadau, sy'n rhoi rhagor o hygrededd i'r prosiect o bosibl, yn enwedig wrth ddwyn partneriaid i gyfrif yn effeithiol.
- Y sector gwirfoddol, sef canolfannau i fenywod yn benodol:
  - Hybiau gwybodaeth ar gyfer deall tystiolaeth a chyflawni arferion gorau yw canolfannau i fenywod.

- Mae eu gwasanaethau eisoes wedi eu cyfarparu ar gyfer cyflawni dull sy'n cael ei lywio gan rywedd a thrawma.

Mae meysydd Dull System Gyfan o'r ddau fodel arweinyddiaeth yn cytuno bod gweithio'n agos mewn partneriaeth rhwng y sectorau'n hanfodol, ac na allai Dull System Gyfan weithredu heb gefnogaeth y sector statudol a gwirfoddol.

## Pwy ddylai gael eu cynnwys?

Dylai'r broses o nodi partneriaid ddilyn y sylfaen dystiolaeth, gan ystyried gwasanaethau cyfredol ac anghenion lleol. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cynnwys yr holl asiantaethau a sefydliadau allweddol, ac nid y rhai yn y system cyfiawnder troseddol yn unig, os yw Dull System Gyfan yn mynd i sicrhau'r manteision a fwriedir. Dylid chwilio am gyfleoedd i gyd-leoli pan fo hynny'n bosibl, oherwydd yr argymhellir hyn yn eang gan Ddulliau System Gyfan blaenorol ac yn Review for Women[28] gan yr Arglwydd Farmer. Mae'r canlynol yn rhestr nad yw'n gynhwysfawr o bartneriaid a argymhellir o feysydd Dull System Gyfan presennol:

- Y system cyfiawnder troseddol:
  - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Lleol a'r Heddlu lleol
  - Llysoedd (e.e. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan gynnwys sefydlu cysylltiadau â dedfrydwyr)
    - Yn argymhelliad 8iii o Review for Women[29], mae'r Arglwydd Farmer yn argymell bod Dulliau System Gyfan yn gweithio'n agos gyda'r llysoedd. Mae'r argymhelliad yn nodi bod gweithiwr proffesiynol arweiniol ar gael yn ystod y cam cyn dedfrydu, er mwyn helpu menywod i baratoi eu plant, aelodau o'u teulu a'u ffrindiau a allai eu cefnogi drwy gydol cyfnod gwarchodol, am y posibilrwydd o garchar.
  - Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai EM)
  - Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'u darparwyr cadwyn gyflenwi
- Y sector cyhoeddus ehangach:
  - Darparwyr iechyd (e.e. Gwasanaeth Cysylltu ac Arallgyfeirio'r GIG, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau)

[28] Lord Farmer (2019). The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809467/farmer-review-women.PDF

[29] Lord Farmer (2019). The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809467/farmer-review-women.PDF

  - Gwasanaethau cam-drin domestig (gweler hefyd argymhelliad 1i yn Review for Women[30] gan Farmer).
  - Darparwyr tai
  - Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant)
  - Gwasanaethau eraill y llywodraeth (gan gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag addysg, cyflogaeth a llety, megis Canolfannau Gwaith)
- Canolfannau i Fenywod a darpariaeth debyg yn y sector gwirfoddol
- Sefydliadau academaidd, a'u rhwydweithiau

## Sut ydych yn sefydlu ac yn cynnal ymgysylltiad y partneriaid hyn?

Mae meysydd Dull System Gyfan sefydledig yn awgrymu canolbwyntio ar sut y bydd cydgysylltu'r gwasanaethau a ddarperir o fudd i bartneriaid penodol (e.e. drwy gyflawni eu targedau eu hunain a lleihau eu costau hyd yn oed). Dylai amcanion cyffredinol fod yn eang er mwyn casglu blaenoriaethau gwahanol bartneriaid, gan barhau i fod yn hyblyg er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg neu flaenoriaethau sy'n newid. Dylai meysydd Dull System Gyfan ddefnyddio tystiolaeth o Ddull System Gyfan blaenorol, yn ogystal â thystiolaeth ynghylch dulliau sydd wedi eu llywio gan rhywedd a thrawma, gan fod yn ymatebol iddynt, er mwyn annog partneriaid i ymgysylltu. Dylai darparu tystiolaeth a data cywir a pherthnasol fod yn bwyslais parhaus i'r prosiect a dylai hyn gael ei gyfleu'n rheolaidd i bartneriaid – hyd yn oed os bydd blaenoriaethau cyffredinol yn newid, dylai'r dystiolaeth o'r ffordd orau o gefnogi menywod barhau i fod yn gyson. Mae creu a chynnal strwythur llywodraethu cadarn o'r cychwyn cyntaf yn sicrhau ymgysylltiad cyson, ac yn caniatáu i flaenoriaethau strategol, hirdymor gael eu nodi a'u dilyn.

## Beth yw manteision amcanion a rennir rhwng gwahanol bartneriaid?

Mae amcanion a rennir rhwng partneriaid yn bwysig, oherwydd eu bod yn hwyluso gweithio'n agosach mewn partneriaeth, gan gynnwys rhannu adnoddau a chyllidebau. Mae amcan craidd Dull System Gyfan yn canolbwyntio ar wella bywydau defnyddwyr gwasanaeth unigol ac ar fanteisio i'r eithaf ar eu potensial i gyflawni eu nodau. Bydd amcanion mwy penodol yn canolbwyntio ar faes penodol o angen, megis camddefnyddio alcohol neu sylweddau (e.e. un o amcanion ymatal neu leihau niwed). Awgrymodd rhai meysydd Dull System Gyfan y dylid rhannu amcanion yn is-amcanion mwy hylaw. Roedd hyn yn dibynnu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r broblem a'r camau penodol sydd eu hangen i gyflawni amcan mwy a nodau cyffredinol prosiect. Caniataodd is-rannu amcanion i'r llafur

---

[30] Lord Farmer (2019). The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809467/farmer-review-women.PDF

gael ei rannu'n well, er enghraifft, efallai y bydd yr amcan cyffredinol o roi terfyn ar berthnasoedd camdriniol defnyddwyr gwasanaeth yn gofyn am gyfraniad penodol oddi wrth bartneriaid ehangach, yn hytrach na dim ond y gwasanaeth cam-drin domestig a enwir.

Mae Cymru'n enghraifft dda o ddefnyddio amcanion a rennir i leihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Adlewyrchir hyn yn Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru (2018-2023)[31] ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

## Sut ydych yn annog ac yn hybu amcanion a rennir pan nad ydynt yn bodoli'n ffurfiol?

Er y bydd hyn, unwaith eto, yn dibynnu ar y sefyllfa leol, nododd meysydd sefydledig y Dull System Gyfan y camau canlynol ar gyfer hybu amcanion a rennir:

- Darparu canlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac astudiaethau achos i bob gwasanaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth gyffredin o'r dull gweithredu a'i amcanion.
- Deall blaenoriaethau sefydliadol gwahanol a dod o hyd i'r hyn y cytunir arno rhwng partneriaid. Mae angen cadw a chefnogi gwerthoedd craidd pob gwasanaeth, gan reoli neu liniaru gwrthdaro rhwng gwerthoedd a blaenoriaethau partneriaid.
- Sefydlu trefniadau monitro a chyfathrebu cryf rhwng partneriaid, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynglŷn â chynnydd.
- Awgrymodd rhai Dulliau System Gyfan fod cyd-leoli gwasanaethau'n cynyddu'r ymdeimlad o ddiben a rennir ac yn hwyluso perthnasoedd cryf rhwng partneriaid.

## A oes unrhyw strwythurau sydd eisoes yn bodoli sy'n gwneud sefydlu Dull System Gyfan yn haws?

Roedd llawer o feysydd sefydledig y Dull System Gyfan yn defnyddio strwythurau llywodraethu a oedd eisoes ar waith cyn i'r Dull System Gyfan ddechrau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Bwrdd Iechyd a Lles

Roedd rhai o'r Dulliau System Gyfan sefydledig yn cydnabod pwysigrwydd darparu pwyslais penodol ar fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan greu gweithgorau neu fyrddau newydd gyda'r pwyslais hwn. Un enghraifft o'r fath yw'r Bwrdd Menywod mewn

---

[31] Llywodraeth Cymru (2018). Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/fframwaith-i-gymorth-cadarnhaol-newid-ir-rhai-mewn-risg-o-droseddu_0.pdf

Cyfiawnder, a sefydlwyd yng Nghymru. I eraill, megis y Dull System Gyfan Gorllewin Mercia, roedd y Dull System Gyfan yn cwmpasu sawl ardal awdurdod lleol, sy'n golygu y byddai'n rhaid cynnwys llawer o fyrddau. Yn yr ardal hon, nid oedd yn ymarferol cysylltu â strwythurau presennol, yn hytrach, y dull mwyaf pragmatig oedd ffurfio bwrdd strategol a gadeiriwyd yn annibynnol, a oedd yn gallu bwydo gwybodaeth i wahanol fyrddau ar draws yr ardal.

## Ariannu Dull System Gyfan: Astudiaeth Achos Willowdene (Gorllewin Mercia)

Dechreuodd Local Initiatives Nurturing Change (LINC), prosiect Dull System Gyfan Gorllewin Mercia, drwy weithredu fel prosiect a gomisiynwyd ar y cyd gyda chyllid oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Roedd y dull hwn yn galluogi'r rhai yn y system cyfiawnder troseddol i gael cymorth a chyllid gyda'r dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar a alluogwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a gefnogwyd ymhellach gan asiantaethau presennol y ffurfiodd LINC bartneriaethau â nhw i gyfuno adnoddau ariannol a ffisegol.

O'r cychwyn cyntaf, roedd prosiect LINC yn awyddus i sicrhau cyllid cynaliadwy y tu hwnt i grant tair blynedd cychwynnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cymhwyswyd dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau cyllid cynaliadwy yn seiliedig ar y meysydd angen mwyaf arwyddocaol a ddangoswyd gan fenywod. Cafodd Addysg a Hyfforddiant ei raddio'n gyson fel yr angen mwyaf ar draws pob carfan o fenywod a oedd yn defnyddio'r prosiect, gyda Chyflogadwyedd hefyd yn parhau i fod yn un o'r pum angen mwyaf ym mhob chwarter.

Yn sefydliad arweiniol ar gyfer LINC, gweithiodd Willowdene Rehabilitation mewn partneriaeth â'r darparwr hyfforddiant, Rite Social Enterprises, i sefydlu a chynnal llwybr at gymwysterau a ddarperir ar safle canolfan i fenywod Willowdene, a defnyddiodd incwm yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau. Cefnogodd staff Dull System Gyfan fenywod ochr yn ochr â hyfforddwyr i oresgyn rhwystrau i gyfranogi a chydgysylltu ymyrraeth gyfannol ym mhob maes angen perthnasol, gan arwain at gyfradd llwyddiant cymwysterau o dros 98%. Ar wahân, sicrhaodd Willowdene gontractau Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn darparu llwybr Adeiladu Cyfleoedd Cyflogadwyedd Gwell, drwy un i ddechrau ac yn ddiweddarach dau Hyfforddwr Swyddi penodedig sy'n gweithio gyda menywod i'w symud yn nes at y farchnad swyddi ac i gael cyflogaeth yn y pen draw.

Yn olaf, arweiniodd gwaith ymgysylltu â busnesau Willowdene at gwmni rhyngwladol a leolir yn lleol yn darparu cyllid parhaus ar gyfer y prosiect yn rhan o'i strategaeth Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Mercia wedi parhau i roi arian grant ar gyfer y prosiect er mwyn ymestyn yr ymrwymiad tair blynedd cychwynnol, yn rhan o'r dull hwn a gomisiynwyd ar y cyd. Yn ystod y misoedd diwethaf, datblygwyd gweithgareddau mentrau cymdeithasol sy'n cynnwys staff a

myfyrwyr (ar raglen LINC) y rhagwelir y byddant yn darparu 10% o gyfanswm costau'r prosiect.

Mae'r model ariannu wedi arwain at ddull cynaliadwy a gomisiynwyd ar y cyd sy'n galluogi model cyflawni Dull System Gyfan lle gellir cefnogi'r rhai a atgyfeirir, ac oherwydd cymysgedd y cyllid, mae'r meini prawf cymhwysedd yn golygu, ni waeth pa un yw'r asiantaeth sy'n atgyfeirio na'r angen y gall y prosiect ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

# Ffynonellau Gwybodaeth Ychwanegol

College of Policing (2019). Recognising and responding to vulnerability related risks. Ar gael yn: http://library.college.police.uk/docs/appref/130319-Risk-scoping-final.pdf

National Police Chiefs' Council (2017). Charging and out of court disposals - A national strategy 2017-2021. Ar gael yn: https://www.npcc.police.uk/Publication/Charging%20and%20Out%20of%20Court%20Disposals%20A%20National%20Strategy.pdf

MOJ (2018). Managing Vulnerability: Women. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721190/police-guidance-on-working-with-vulnerable-women-web.pdf

MOJ a HMPPS (2018). Women's Policy Framework. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/767304/women_s-policy-framework.pdf

NOMS (2015). Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/448859/effective-interventions-for-women-offenders.pdf

NOMS (2015). Better Outcomes for Female Offenders. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457922/Better_Outcomes_for_Women_Offenders_September_2015.pdf

# Atodiad A. Cydlofnodwyr y Concordat

Yn gydlofnodwyr y Concordat hwn, mae pob un o’r sefydliadau a restrir isod wedi gwneud ymrwymiad ar y cyd i gydweithio ac i gefnogi systemau lleol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ledled Cymru a Lloegr i fenywod sydd eisoes wedi dod ar draws y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn pennu ac yn cyflawni polisi’r llywodraeth ar gyfer y systemau cyfiawnder troseddol, sifil a theuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae’n gyfrifol am ddarparu cymorth cyfreithiol, am weinyddu cyfiawnder drwy lysoedd a thribiwnlysoedd, ac am gadw ac adsefydlu troseddwyr.

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda nifer o adrannau a chyrff eraill y llywodraeth ar draws y system cyfiawnder troseddol. Mae’r Weinyddiaeth yn cyflawni ei hamcanion drwy 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich, yn nodedig:

- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi;
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, sy’n darparu cymorth a chyngor cyfreithiol sifil a throseddol yng Nghymru a Lloegr; ac
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sy’n goruchwylio’r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i sicrhau bod polisi ar draws yr ystod gyfan o’i chyfrifoldebau adrannol yn cymryd ymagwedd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gydnabod yn benodol anghenion penodol menywod, p’un a ydynt yn y carchar, ar brofiannaeth neu’n defnyddio gwasanaethau dioddefwyr/goroeswyr.

https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice

## Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni dedfrydau a roddir gan y llysoedd, naill ai yn y ddalfa neu’r gymuned, a’i nod yw lleihau aildroseddu drwy adsefydlu’r bobl sydd yn ei ofal drwy addysg a chyflogaeth. Mae’r partneriaid yn cynnwys elusennau, arolygwyr annibynnol, cynghorau lleol, yn ogystal â’r llysoedd a’r heddlu. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi ei wneud o dair rhan:

- Y Gwasanaeth Carchardai - Asiantaeth weithredol, a noddir gan Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, sy’n cadw’r rhai a ddedfrydwyd i’r carchar yn y ddalfa, gan eu helpu nhw i fyw bywydau sy’n cadw at y gyfraith a bywydau defnyddiol, tra byddant yn y carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau;
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Gwasanaeth cyfiawnder troseddol statudol sy’n goruchwylio’r broses o ddarparu’r gwasanaeth prawf yng Nghymru, gan gynnwys drwy Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol; a
- Pencadlys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Mae’r cyfrifoldebau’n cynnwys gwasanaethau adsefydlu i bobl sy’n gadael y carchar, sicrhau bod cymorth ar gael i atal pobl rhag aildroseddu, rheoli contractau carchardai a gwasanaethau’r sector preifat megis y gwasanaeth hebrwng carcharorion.

Er nad oes gan Gymru garchar i fenywod, mae Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a’r Strategaeth yn gyfrifol am sicrhau bod pob sefydliad sy’n darparu gwasanaethau sy’n cynnwys pobl yn ei ofal yng Nghymru yn cydweithio’n agos. Mae’r Cyfarwyddwr Gweithredol yn arwain ar y rhyngwyneb â Llywodraeth Cymru ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gysylltu â Llywodraeth Cymru, swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid cyflawni cyfiawnder (gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol a charchardai yng Nghymru) er mwyn sicrhau cydweithio a chyfathrebu effeithiol. Un o’r amcanion allweddol yw sicrhau bod y gwaith yn dilyn y polisïau y mae Llywodraeth Cymru’n eu creu ar gyfer pobl Cymru.

## Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Mae Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cadw’r rhai sydd wedi eu dedfrydu i’r carchar yn y ddalfa, gan eu helpu nhw i fyw bywydau defnyddiol sy’n cadw at y gyfraith, tra byddant yn y carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gweithio gyda llysoedd, yr heddlu a chynghorau lleol, yn ogystal â mudiadau gwirfoddol, i wneud hyn ac i gynnal 109 o’r 123 o garchardai yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â’r carchardai hyn, ceir 14[32] o garchardai sy’n cael eu gweithredu gan gwmnïau sector preifat, ac mae un ohonynt, CEM Bronzefield, yn garchar ar gyfer menywod. Mae gan bob carchar preifat ‘Reolwr’ sy’n eu cysylltu â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

https://www.gov.uk/government/organisations/hm-prison-service/about

[32] Cynhelir CEM Birmingham o dan gontract gan G4S, ond mae wedi cael ei reoli gan y sector cyhoeddus yn rhan o gynllun ‘camu i mewn’ i wella gwasanaethau ers mis Awst 2018.

## Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Sefydlwyd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar 1 Mehefin 2014, ynghyd â 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n rheoli troseddwyr risg isel a chanolig. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, gyda'r llysoedd, yr heddlu a chyda phartneriaid yn y sector preifat a gwirfoddol i reoli troseddwyr yn ddiogel ac yn effeithiol.  Gyda'i gilydd, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi disodli'r 35 ymddiriedolaeth prawf flaenorol. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am:

- baratoi adroddiadau cyn dedfrydu ar gyfer llysoedd, i'w helpu i ddewis y ddedfryd fwyaf priodol;
- rheoli safleoedd cymeradwy ar gyfer troseddwyr sydd â gofyniad preswylio ar eu dedfryd;
- asesu troseddwyr yn y carchar i'w paratoi i'w rhyddhau ar drwydded i'r gymuned, pan fyddant yn dod o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- helpu pob troseddwr sy'n gwneud ei dymor mewn carchar yn y gymuned i fodloni'r gofynion a orchmynnir gan y llysoedd; a
- chyfathrebu â dioddefwyr troseddau rhywiol a threisgar difrifol, gan eu blaenoriaethu, pan fo'r troseddwr wedi cael dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy, neu'n cael ei gadw'n glaf iechyd meddwl.

https://www.gov.uk/government/organisations/national-probation-service

## Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol hefyd am dribiwnlysoedd nad ydynt wedi eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae'n gweithio gyda barnwriaeth annibynnol i ddarparu cyfiawnder teg, effeithlon ac effeithiol.

Yn ogystal â llawer o wahanol dribiwnlysoedd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn gweinyddu gwaith llysoedd ynadon a'r Llys Sirol, Llys Teulu, Llys y Goron, a'r Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol. Trwy'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi mynediad i bobl at gyfiawnder, gan gynnwys:

- dioddefwyr a thystion troseddau;
- diffynyddion a gyhuddir o droseddau;
- defnyddwyr sydd mewn dyled neu gydag anghydfodau eraill;

- pobl sy'n ymwneud â mabwysiadu neu ddiogelu plant;
- unigolion sy'n mynnu eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff y llywodraeth; a
- phobl yr effeithir arnynt gan berthynas yn chwalu.

https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about.cy

## Swyddfa'r Cabinet

Mae Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi'r Prif Weinidog i sicrhau y cynhelir llywodraeth yn effeithiol, a hi hefyd yw pencadlys corfforaethol y llywodraeth, mewn partneriaeth â Thrysorlys Ei Mawrhydi. Swyddfa'r Cabinet sy'n gyfrifol am:

- gefnogi llywodraeth gyfunol, gan helpu i sicrhau bod polisïau'n cael eu datblygu, eu cydgysylltu a'u gweithredu'n effeithiol;
- hybu effeithlonrwydd a gwaith diwygio ar draws y llywodraeth drwy arloesi, caffael yn well a rheoli prosiectau, a chan weddnewid y broses o ddarparu gwasanaethau; a
- hybu'r broses o ryddhau data'r llywodraeth a gwneud y ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithio'n fwy tryloyw.

https://www.gov.uk/government/organisations/cabinet-office/about

## Yr Adran Addysg

Mae'r Adran Addysg (DfE) yn goruchwylio'r fframwaith deddfwriaethol a'r polisi cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol i blant, a ddarperir gan awdurdodau lleol. Un o'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu system amddiffyn plant y DU yw bod plant yn cael y gofal gorau yn eu teuluoedd. Pan fo angen cymorth ar deuluoedd gan y gwasanaethau i blant, bydd gweithwyr cymdeithasol yn helpu rhieni i ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i blant cyn belled ag y bo modd. Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn nodi dyletswyddau deddfwriaethol a'r gweithdrefnau y dylai unigolion eu dilyn ac mae'n ddiamwys y dylai'r gwasanaethau prawf ofyn i droseddwr ar y cyfle cyntaf a ydynt yn byw gyda phlant, a oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu am blant, neu a ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â phlant.

Cyflwynodd diwygiadau o dan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 drefniadau diogelu amlasiantaeth cryfach, gan ddisodli Byrddau Lleol Diogelu Plant y nodir bod gwasanaethau prawf a charchardai yn asiantaethau perthnasol ar eu cyfer. Pan fônt yn rhan o drefniadau diogelu lleol, fel y nodir gan y tri phartner diogelu (awdurdodau lleol, yr heddlu, iechyd), mae dyletswydd ar yr asiantaethau hyn i gydymffurfio

https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education

## Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am bolisïau lles, pensiynau a chynhaliaeth plant. Fel yr adran gwasanaethau cyhoeddus fwyaf y DU, mae'n gweinyddu Pensiwn y Wladwriaeth ac amrywiaeth o fudd-daliadau oedran gweithio, anabledd ac afiechyd i oddeutu 20 miliwn o hawlwyr a chwsmeriaid. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am:

- ddeall ac ymdrin ag achosion tlodi yn hytrach na'i symptomau;
- annog pobl i weithio a gwneud i waith dalu;
- annog pobl anabl a'r rhai sydd ag afiechydon i weithio a bod yn annibynnol;
- darparu incwm teilwng i bobl o oedran pensiwn a hybu'r broses o gynilo ar gyfer ymddeoliad;
- darparu gwerth am arian a lleihau'r lefelau o dwyll a gwallau; a
- lleihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith ac anafiadau difrifol mewn gweithleoedd drwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Adran weinidogol a gefnogir gan 15 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus yw'r Adran Gwaith a Phensiynau.

https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions.cy

## Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi gweinidogion i arwain iechyd a gofal cymdeithasol y genedl i helpu pobl i fyw bywydau mwy annibynnol ac iachach am gyfnod hirach. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am y canlynol:

- cefnogi a chynghori gweinidogion i'w helpu i lunio a chyflawni polisïau sy'n cyflawni amcanion y llywodraeth;
- pennu cyfeiriad: rhagweld y dyfodol ac arwain trafodaeth er mwyn diogelu a gwella iechyd byd-eang a domestig;
- atebolrwydd: sicrhau bod yr adran a'i chyrff hyd braich yn cyflawni cynlluniau ac ymrwymiadau y cytunwyd arnynt; a
- gweithredu fel gwarcheidwaid y fframwaith iechyd a gofal: sicrhau bod y fframweithiau deddfwriaethol, ariannol, gweinyddol a pholisi yn addas i'w diben ac yn gweithio gyda'i gilydd.

https://www.gov.uk/government/organisations/department-of-health-and-social-care/about

## National Health Service England & Improvement

Mae National Health Service England & Improvement (NHSE&I) yn awdurdodi’r grwpiau comisiynu clinigol newydd, sef sbardunau’r system gomisiynu newydd a arweinir yn glinigol ac a gyflwynwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyn 1 Ebrill 2013, roedd GIG Lloegr yn cael ei adnabod fel Bwrdd Comisiynu’r GIG. Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw GIG Lloegr.

Ers 1 Ebrill 2019, mae GIG Lloegr a NHS Improvement yn gweithio gyda’i gilydd fel un sefydliad newydd er mwyn cefnogi’r GIG yn well i ddarparu gwell gofal i gleifion. Wrth i systemau iechyd lleol gydweithio’n agosach, mae angen i’r un peth ddigwydd ar lefel genedlaethol. Cynlluniwyd y model gweithredu sengl newydd er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni NHS Long Term Plan.

Cefnogir systemau iechyd lleol gan saith tîm rhanbarthol integredig sy’n chwarae swyddogaeth arweiniol bwysig yn yr ardaloedd daearyddol y maent yn eu rheoli. Maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o gefnogi a sicrhau perfformiad yn eu rhanbarth, yn ogystal â chefnogi’r broses o weddnewid systemau a datblygu partneriaethau cynaliadwyedd a gweddnewid a systemau gofal integredig.

https://www.england.nhs.uk/

## Iechyd Cyhoeddus Lloegr

Un o asiantaethau gweithredol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE)[33], ac mae’n gyfrifol am:

- wneud y cyhoedd yn iachach a lleihau gwahaniaethau rhwng iechyd gwahanol grwpiau drwy hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, cynghori’r llywodraeth a chefnogi camau gweithredu gan lywodraeth leol, y GIG a’r cyhoedd;
- diogelu’r genedl rhag peryglon iechyd y cyhoedd;
- paratoi ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd ac ymateb iddynt;
- gwella iechyd y boblogaeth gyfan drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd, a nodi a pharatoi ar gyfer heriau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol;

[33] Ar 18 Awst 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai’r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Diogelu Iechyd yn dechrau gweithio ar unwaith, gydag un strwythur gorchymyn er mwyn hybu ymateb y wlad i bandemig COVID-19. Bydd yn dwyn ynghyd PHE a Profi Olrhain Diogelu y GIG, yn ogystal â gallu dadansoddol y Gydganolfan Bioddiogelwch o dan un tîm arweinyddiaeth. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y gwaith hanfodol o fynd i’r afael â’r pandemig, bydd y sefydliad yn cael ei ffurfioli ac yn gweithredu o wanwyn 2021 ymlaen. Bydd y sefydliad newydd yn cefnogi cyfarwyddwyr lleol iechyd y cyhoedd ac awdurdodau lleol sydd ar reng flaen yr ymateb i COVID-19.

- cefnogi awdurdodau lleol a'r GIG i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, megis rhaglenni imiwneiddio a sgrinio, a datblygu'r system iechyd cyhoeddus a'i gweithlu arbenigol; ac
- ymchwilio, casglu a dadansoddi data i wella dealltwriaeth o heriau iechyd y cyhoedd, a chyflwyno atebion i broblemau iechyd y cyhoedd.

Mae PHE yn gwneud hyn drwy wyddoniaeth sy'n arwain y byd, gwybodaeth a deallusrwydd, eiriolaeth, partneriaethau a thrwy ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus arbenigol.

https://www.gov.uk/government/organisations/public-health-england/about

## Trysorlys ei Mawrhydi

Trysorlys Ei Mawrhydi yw gweinidogaeth economaidd a chyllid y llywodraeth, sy'n cadw rheolaeth dros wariant cyhoeddus, yn pennu cyfeiriad polisi economaidd y DU ac yn gweithio i sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn gyfrifol am y canlynol:

- gwariant cyhoeddus: gan gynnwys gwariant adrannol, cyflog a phensiwn y sector cyhoeddus, gwariant a reolir yn flynyddol a pholisi lles, a buddsoddiad cyfalaf;
- polisïau gwasanaethau ariannol: gan gynnwys rheoleiddio bancio a gwasanaethau ariannol, sefydlogrwydd ariannol, a sicrhau cystadleurwydd yn y Ddinas;
- goruchwyliaeth strategol o system dreth y DU: gan gynnwys treth uniongyrchol, anuniongyrchol, busnes, eiddo, treth bersonol a chorfforaeth;
- cyflawni prosiectau seilwaith ar draws y sector cyhoeddus a hwyluso buddsoddiad gan y sector preifat i seilwaith y DU; a
- sicrhau bod yr economi'n tyfu'n gynaliadwy.

https://www.gov.uk/government/organisations/hm-treasury/about

## Y Swyddfa Gartref

Y Swyddfa Gartref yw prif adran y llywodraeth ar gyfer mewnfudo a phasbortau, polisïau cyffuriau, troseddu, tân, gwrthderfysgaeth a'r heddlu. Mae'n gyfrifol am y canlynol:

- gweithio ar y problemau a achosir gan ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau;
- llunio polisi, amodau trwyddedu a'r strategaeth alcohol;
- cadw'r Deyrnas Unedig yn ddiogel rhag bygythiad terfysgaeth;
- lleihau ac atal troseddu, a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau;

- sicrhau ffin y DU a rheoli mewnfudo;
- ystyried ceisiadau i ddod i mewn ac aros yn y DU;
- cyflwyno pasbortau a fisâu;
- cefnogi plismona gweladwy, cyfrifol ac atebol drwy rymuso'r cyhoedd a rhyddhau'r heddlu i fynd i'r afael â throseddu; ac
- atal tân ac achub.

https://www.gov.uk/government/organisations/home-office/about

## Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Gwaith y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt) yw creu lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt, a rhoi rhagor o bŵer i bobl leol siapio'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am:

- gynyddu'r cyflenwad tai;
- cynyddu perchentyaeth;
- datganoli pwerau a chyllidebau er mwyn hybu twf lleol yn Lloegr; a
- chefnogi cymunedau cryf gyda gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.

https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-housing-communities-and-local-government/about

# Atodiad B. Metrigau Llwyddiant ar gyfer Canlyniadau'r Concordat

**Ymyrryd yn Gynnar**

Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a'r ymrwymiad a rennir gan y Concordat, dywedwyd gennym ein bod yn dymuno gweld llai o fenywod yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol a llai o aildroseddu. Er mwyn mesur y cynnydd o'i gymharu â'r nod hwn, byddwn yn monitro'r canlynol:

- Anghenion troseddogenig ac ymatebolrwydd menywod yn y gymuned a'r ddalfa
- Arestiadau
- Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (e.e. Rhybuddion a hysbysiadau cosb am anhrefn)
- Erlyniadau a chanlyniadau llys
- Cysylltu ac Arallgyfeirio

**Atebion Cymunedol**

Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a'r ymrwymiad a rennir gan y Concordat, dywedwyd gennym ein bod yn dymuno gweld llai o fenywod yn y ddalfa (yn enwedig ar ddedfrydau tymor byr ac ar remánd) gyda chyfran uwch o fenywod yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned. Er mwyn mesur y cynnydd o'i gymharu â'r nod hwn, byddwn yn monitro'r canlynol:

- Gorchmynion Dedfrydu Cymunedol a Gorchmynion Dedfrydau a Ataliwyd, a gofynion triniaeth cysylltiedig
- Adroddiadau Cyn Dedfrydu
- Remánd

**Y Ddalfa**

Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a'r ymrwymiad a rennir gan y Concordat, dywedwyd gennym ein bod yn dymuno gweld gwell amodau i'r rhai sydd yn y ddalfa ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Er mwyn mesur y cynnydd o'i gymharu â'r nod hwn, byddwn yn monitro'r canlynol:

- Dedfrydau o garchar, gan gynnwys manylion am hyd
- Poblogaeth carchardai
- Diogelwch yn y ddalfa
- Disgyblaeth yn y ddalfa
- Cysylltiadau teuluol a mamau yn y ddalfa
- Ailsefydlu
- Aildroseddu

# Atodiad C. Ystyried Anghenion Penodol y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig a Charfanau eraill sy'n Agored i Niwed

Fel yr amlygwyd yn Adran 4, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac mae'n hybu cymdeithas deg a mwy cyfartal. Mae yn erbyn y gyfraith gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol

Yn yr adran ganlynol, rydym yn tynnu sylw at garfanau o fenywod sy'n enwedig o agored i niwed yn y System Cyfiawnder Troseddol. Pan fo hynny'n bosibl, rydym yn nodi rhai o'r materion a'r rhwystrau penodol y mae menywod o fewn carfan yn eu hwynebu, yn tynnu sylw at ymateb y Llywodraeth, ac, os ydynt ar gael, rydym yn darparu argymhellion arferion gorau ar lefel leol.

## Menywod Hŷn

Mae gwahanol ddiffiniadau o "henaint" sy'n cael eu defnyddio, ond cytunir yn gyffredinol, pan fo rhywun wedi bod yn y carchar, fod symptomau corfforol heneiddio'n dechrau'n gyflymach ymhlith carcharorion hŷn o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol[34]. Mae hyn wedi arwain at ddiffiniad a dderbynnir yn eang o garcharor hŷn fel un sy'n 50 oed neu'n hŷn. Yn gyffredinol, mae iechyd carcharorion hŷn yn waeth nag iechyd eu cyfoedion yn y gymuned, gyda rhai â statws iechyd corfforol 10 mlynedd yn hŷn o'i gymharu â'u cyfoedion. Amcangyfrifir bod gan 80% o garcharorion sy'n 50 oed neu'n hŷn salwch neu anabledd hirdymor. Ceir tystiolaeth bod carcharorion hŷn yn profi baich trwm gyda phroblemau iechyd corfforol a meddyliol. Mae ymchwil yn awgrymu bod gan hyd at 90%

34 Justice Select Committee (2020). Ageing prison population. Ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/304/30402.htm

ohonynt o leiaf un cyflwr iechyd cymedrol neu ddifrifol[35]. Mae eu canlyniadau iechyd yn debygol o fod yn waeth na chanlyniadau pobl yn y gymuned o’r un oed ac yn waeth na chanlyniadau’r carcharorion iau.

Mae hyn yn fan cychwyn ar gyfer ystyried y materion a’r rhwystrau a wynebir gan fenywod hŷn sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol. Mae sefydliadau’r trydydd sector sy’n gweithio gyda’r garfan hon wedi nodi dau brif grŵp o fenywod hŷn sy’n elwa o’u cefnogaeth: efallai y bydd gan y cyntaf hanes hir o droseddu, wedi ei ddwysáu gan ffactorau megis salwch meddwl, digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau; mae’r ail, a allai fod o gefndiroedd mwy cefnog yn aml, wedi dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol yn sydyn yn ddiweddarach yn eu bywyd, ar ôl digwyddiad sy’n peri straen emosiynol o bosibl neu newid trawmatig ym mywyd unigolyn, er enghraifft ysgariad.

Mae profiad hefyd yn dangos efallai na fydd cymorth a chyngor a allai fod yn briodol i fenywod iau yn berthnasol iawn i fenywod hŷn, yn enwedig y rheini sydd wedi pasio oedran ymddeol, neu’n agos at hynny. Er enghraifft, gallai menywod hŷn ddangos llai o frwdfrydedd dros ennill sgiliau galwedigaethol newydd, er y dylid nodi y gallai mantais gudd o wella sgiliau llythrennedd a TG fod yn ffordd o wella perthnasoedd ag aelodau iau o’r teulu, megis wyrion, yn enwedig ar ôl dedfryd hir o garchar. Bydd pwysigrwydd cryfhau cysylltiadau teuluol yn berthnasol i neiniau yn ogystal â mamau.

Gallai menywod hŷn fod yn llai tebygol o weld cyflogaeth yn ddewis realistig ar gyfer y dyfodol a gallent brofi rhwystrau ychwanegol hefyd o ran cael swyddi oherwydd eu hoedran, wedi eu dwysáu o bosibl gan eu diffyg cymharol o wybodaeth a sgiliau cyfredol.

Bydd ystyriaethau a fydd yn berthnasol wrth gefnogi menywod hŷn yn cynnwys:

- gwasanaethau hygyrch mewn amgylchedd diogel a all ddarparu mynediad i gymorth mwy arbenigol;
- nodi anghenion unigol a chynnig mynediad at gyngor a gwybodaeth wedi eu haddasu megis sut i wneud cais am fudd-daliadau sy’n gysylltiedig ag oedran;
- helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddefnyddio systemau a allai fod yn anghyfarwydd;
- meithrin hunaniaeth grwpiau a chefnogaeth cymheiriaid drwy ddiddordebau a nodir a chyfeirio at ffyrdd y gellir ymgysylltu â’r rhain (e.e. nodi, ac fel y bo’n briodol, trefnu cyflwyniadau i gymdeithasau lleol, clybiau llyfrau, celf a chrefft ac ati);
- i’r rhai sydd wedi cyrraedd oedran ymddeol, archwilio cyfleoedd eraill i ddefnyddio amser yn bwrpasol (e.e. posibiliadau gwirfoddoli priodol neu rwydweithiau cymorth cymheiriaid); a

[35] Williams a Greifinger (2014). The older prisoner and complex chronic medical care, in Prisons and Health, L.M. Stefan Enggist, Gauden Galea a Caroline Udesen, Golygydd. 2014, World Health Organisation Regional Office for Europe: Copenhagen, Denmark.

- darparu atgyfeiriad ymlaen at wasanaethau cymorth a all ymateb i anghenion unigol, megis iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol.

## Trawsryweddol

Mae'n hanfodol mai sicrhau bod pob carcharor yn cael ei gadw'n ddiogel yw ein hamcan, bod hawliau carcharorion trawsryweddol yn cael eu parchu a'n bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Dylai pob penderfyniad ynghylch lleoli, yn ogystal â'u rheoli, carcharorion trawsryweddol yn yr ystâd ystyried lles, hawliau a risgiau'r carcharorion yn y carchardai sy'n eu derbyn nhw, a hawliau, risgiau a lles yr unigolyn trawsryweddol; mae'n rhaid ystyried y ddwy elfen hyn yn llawn ac mae'n rhaid iddynt fod yn gytbwys o'u cymharu â'i gilydd. Mae'n rhaid asesu risgiau penodol i garcharorion benywaidd yn drylwyr pryd bynnag y bo menyw drawsryweddol yn cael ei hystyried ar gyfer lleoliad yn ystâd carchardai y menywod.

Gall menywod trawsryweddol ddioddef sylw diangen ac ymosodiadau rhywiol. Hefyd, mae menywod trawsryweddol yn elwa o'r arferion sy'n seiliedig ar drawma sy'n llywio gwaith gyda throseddwyr benywaidd.

Fel ym mhob maes gwaith gyda throseddwyr, mae angen nodi a rheoli risgiau'n weithredol, ond mae'n rhaid i hyn beidio ag atal anghenion unigolion trawsryweddol rhag gallu cael gafael ar wasanaethau sydd â'r sgiliau a'r capasiti priodol.

Mae sawl ffactor a allai fod yn ddefnyddiol wrth helpu i fynd i'r afael ag anghenion ar lefel leol:

- **Diffiniad o Droseddwyr Trawsryweddol:** fel yr amlinellir yn Fframwaith Polisi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi[36], canolbwyntir yn bennaf ar unigolion sy'n mynegi awydd cyson i fyw'n barhaol yn y rhywedd y maent yn uniaethu ag ef, ac sy'n groes i'r rhyw fiolegol a gofrestrwyd pan gawsant eu geni. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n dymuno trawsnewid yn barhaol, y rhai sy'n dymuno byw yn y rhywedd y maent yn uniaethu ag ef ond nad ydynt yn ceisio cydnabyddiaeth gyfreithiol, a'r rhai sydd yn ceisio cydnabyddiaeth gyfreithiol.
- **Cydnabyddiaeth Gyfreithiol:** pan fo unigolion wedi cael cydnabyddiaeth gyfreithiol, mae'n rhaid eu trin yn unol â'u rhywedd a gydnabyddir yn gyfreithiol ym mhob ystyr (oni bai bod esemptiad o dan y Ddeddf Cydnabod Rhywedd neu fod deddfwriaeth arall yn berthnasol).
- **Tystiolaeth Ymchwil Ehangach:** yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd nifer o adroddiadau ymchwil sy'n dangos bod gan bobl drawsryweddol gyfraddau uwch o

[36] HMPPS (2020). The care and management of individuals who are transgender. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/863610/transgender-pf.pdf

broblemau iechyd meddwl, hunan-niweidio a hunanladdiad[37]. Felly, dylai gwasanaethau lleol ystyried hyn a darparu ar ei gyfer.

# Beichiogrwydd a Mamolaeth

**Mamolaeth**

Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o fod yn brif ofalwyr pan fyddant yn dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol. Dengys adolygiad Review for Women (2019) gan Farmer, a gomisiynwyd yn rhan o’r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, fod cefnogi menywod i feithrin a chynnal teulu iach a pherthnasoedd arwyddocaol eraill yn allweddol i adsefydlu a lleihau troseddau rhwng cenedlaethau.

Neges graidd sy’n rhedeg drwy gydol adolygiad Farmer yw y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth eraill ystyried effaith penderfyniadau ar fywyd teuluol a phlant menywod – effeithiau sy’n enwedig o aflonyddgar os mai hi yw prif ofalwr plant dibynnol. Mae’r adolygiad yn galw am ofyn am yr wybodaeth am gyfrifoldebau gofalu’r fenyw, sefydlogrwydd y llety a pherthnasoedd cefnogol ac andwyol, gan eu hystyried drwy’r holl system cyfiawnder troseddol. Argymhellir ystyried yr anghenion hyn o ran gwaredu, cynllun dedfrydu a phenderfyniadau ailsefydlu, yn ogystal ag annog y fam a’r plentyn i gael eu cadw gyda’i gilydd pan fo hynny’n bosibl ac er lles gorau’r plentyn.

Mae’r Llywodraeth wedi derbyn argymhellion yr Arglwydd Farmer, gan gynnwys y rhai sy’n cefnogi mamau a menywod beichiog yn y gymuned, ac mae’n bwriadu bwrw ymlaen â nhw. Mae sawl argymhelliad yn cynnig newidiadau a fydd yn cynyddu amlygrwydd cyfrifoldebau prif ofalwyr yn y system cyfiawnder troseddol, yn fwyaf nodedig, argymhellir Ffeil Amgylchiadau Personol sy’n galw am fanylion am berthnasoedd allweddol, llety, cyfrifoldebau gofalu a gwybodaeth berthnasol arall am fenyw i fod ar gael ac i gael eu hystyried yn ystod pob cam. Yn fwy penodol, rydym hefyd yn dymuno gweld yr effaith ar ddibynyddion yn cael ei nodi, ei hystyried a’i rhannu fel mater o drefn drwy ffurflenni Llawlyfr Canllawiau’r heddlu, Adroddiadau Gwybodaeth am Fechnïaeth ac Adroddiadau Cyn Dedfrydu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd monitro data canolog am brif ofalwyr yn y system cyfiawnder troseddol ar gyfer llywio polisïau a thryloywder ac rydym yn ystyried y ffordd orau o gasglu a monitro hyn.

Codwyd y mater hwn y llynedd hefyd gan y Cydbwyllgor Hawliau Dynol yn eu hadroddiad ar Erthygl 8 ynghylch yr hawl i fywyd teuluol a phlant y mae eu mamau yn y carchar. Tynnodd y pwyllgor sylw at y pwysigrwydd o gael pob asiantaeth i gofnodi a chydnabod cyfrifoldebau gofalu menywod, yn ogystal â’r angen dros gyfathrebu’r rhesymau am hyn ag

[37] Bashford, J; Hasan, S; Marriott, C a Patel, K (2017) *Inside Gender Identity: A report on meeting the health and social care needs of transgender people in the criminal justice system.* Bradford: Community Innovations Enterprise

unrhyw fenyw, o ystyried y gallai rhai deimlo'n amharod i ddatgelu manylion am eu plant a'u teulu rhag ofn i'r gwasanaethau cymdeithasol ymwneud â nhw.

**Beichiogrwydd**

Mae'r effeithiau negyddol o darfu ar fywyd teuluol ac o wahanu'r fam a'r plentyn yn enwedig o ddifrifol o safbwynt menywod beichiog a menywod sydd â phlant ifanc. Yn unol ag argymhellion Coleg Brenhinol y Bydwragedd[38], dylid cyfeirio gwaith rhyngasiantaethol tuag at gadw'r fam a'r baban gyda'i gilydd pan fo hynny'n bosibl er lles gorau'r plentyn.

## Anabledd ac Iechyd (gan gynnwys Iechyd Corfforol a Meddyliol)

**Anghenion penodol a rhwystrau a wynebir**

Yn gyffredinol, mae troseddwyr yn profi cyfran uwch o anghenion iechyd corfforol a meddyliol cymhleth na'r boblogaeth gyffredinol. Gall troseddwyr benywaidd fod ymhlith y bobl sydd fwyaf agored i niwed, o ran mynychder a chymhlethdod eu hanghenion. Mae llawer yn profi ffyrdd anhrefnus o fyw, megis ffyrdd o fyw sy'n cynnwys camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a digartrefedd, sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau iechyd ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu.

Mae dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol ac anghenion iechyd meddwl yn gyffredin ymhlith troseddwyr benywaidd. Dywedodd cyfran uwch o garcharorion benywaidd fod ganddynt broblem alcohol neu gyffuriau wrth gyrraedd y carchar o'u cymharu â dynion. Mae data o 2017 yn dangos bod gan lawer mwy o fenywod broblem alcohol pan gyrhaeddon nhw'r carchar (24%) o'u cymharu â dynion (18%)[39]. Yn yr un modd, dangosodd arolygon carcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn 2017/18 fod 42% o garcharorion benywaidd o'u cymharu â 28% o garcharorion gwrywaidd wedi dweud eu bod ganddynt broblem gyffuriau (gan gynnwys gyda chyffuriau anghyfreithlon neu feddyginiaeth na ragnodwyd iddynt) pan oeddent yn cyrraedd eu carchar presennol[40]. Yn y gymuned, dywedodd 46% o fenywod sy'n droseddwyr fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl o gymharu

[38] The Royal College of Midwives (2019). Position Statement. Perinatal women in the criminal justice system. Ar gael yn: https://www.rcm.org.uk/media/3640/perinatal-women-in-the-criminal-justice-system_7.pdf

[39] MOJ (2017), Statistics on Women and the Criminal Justice System 2017, Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/759770/women-criminal-justice-system-2017..pdf

[40] HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales, (2018), Annual Report 2017-18, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761589/hmi-prisons-annual-report-2017-18-revised-web.pdf

â 26% o ddynion[41]. Yn y ddalfa, mae'r gyfradd hunan-niweidio fesul 1,000 o garcharorion bron bum gwaith yn uwch mewn carchardai i fenywod o'u cymharu ag ystâd carchardai y dynion[42].

Hefyd, gallai menywod sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol brofi anableddau neu anawsterau dysgu, neu wyriadau niwrolegol eraill a all gyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn ymyriadau adsefydlu a gwella eu natur fregus. Er enghraifft, canfu ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Anableddau fod 64% o'r 173 o fenywod yn CEM/STI Drake Hall a sgriniwyd gan ddefnyddio offeryn Mynegai Sgrinio Anafiadau'r Ymennydd wedi nodi hanes sy'n arwydd o anaf i'r ymennydd, ac o'r rheini, roedd bron pob un (96%) yn adrodd hanes sy'n arwydd o anaf trawmatig i'r ymennydd. O'r menywod a gefnogwyd drwy'r gwasanaeth 'gweithiwr cyswllt' sy'n cael ei dreialu, dywedodd 62% ohonynt eu bod wedi cael anaf i'w hymennydd drwy gam-drin domestig[43]. Hefyd, mae unigolion ag anableddau dysgu neu awtistiaeth yn mynd heb gael eu hanghenion wedi eu diagnosio yn aml, sy'n lleihau'r cyfle iddynt gael gafael ar yr ymyriadau sydd eu hangen arnynt ac o wella eu canlyniadau adsefydlu o bosibl. Deellir yn gyffredinol fod menywod a merched ag awtistiaeth yn y gymuned ehangach yn fwy tebygol o fynd heb gael diagnosis neu o gael diagnosis yn hwyrach na dynion[44].

**Mynd i'r afael ag anghenion iechyd troseddwyr benywaidd**

Gwyddom y gall mynd i'r afael ag anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn gynnar yn ystod taith pob troseddwr drwy'r system cyfiawnder troseddol, boed yn ddyn neu'n fenyw, helpu i leihau ei risg o aildroseddu. Canfu astudiaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a PHE yn 2017 a gymharodd ymddygiad troseddol cyn ac ar ôl triniaeth nad aildroseddodd 44% o'r troseddwyr a gwblhaodd yn llwyddiannus driniaeth yn y gymuned ar gyfer camddefnyddio sylweddau o fewn cyfnod o ddwy flynedd. Er nad oedd grŵp rheoli ar gyfer yr astudiaeth, ac felly gallai ffactorau eraill fod wedi effeithio ar leihau aildroseddu hefyd, mae'r canlyniadau'n awgrymu y gallai cymryd camau i fynd i'r afael ag anghenion iechyd fod yn elfen bwysig o reoli canlyniadau cyfiawnder[45].

Mae gwasanaethau Cysylltu ac Arallgyfeirio a gomisiynir gan NHSE&I yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod menywod yn cael cymorth priodol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd ac ymddygiad troseddol. Mae gwasanaethau Cysylltu ac Arallgyfeirio yn lleoli staff

---

[41] MOJ (2013), Results from the Offender Management Community Cohort Study (OMCCS): Assessment and sentence planning, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/309959/results-omccs.pdf

[42] MOJ (2020). Safety in custody quarterly: update to December 2019. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2019

[43] The Disabilities Trust (2019) 'Making the Link: Female Offending and Brain Injury' Ar gael yn https://www.thedtgroup.org/foundation/news/the-disabilities-trust-launch-making-the-link-report

[44] Gweler, er enghraifft, wefan National Autistic Society (2020) https://www.autism.org.uk/about/what-is/gender.aspx

[45] Ministry of Justice and Public Health England (2017) *The effect of drug and alcohol treatment on re-offending,* ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-effect-of-drug-and-alcohol-treatment-on-re-offending

clinigol mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd er mwyn darparu asesiadau ac atgyfeiriadau at driniaeth a chymorth. Yna gellir rhannu gwybodaeth â’r heddlu a’r llysoedd (gyda chydsyniad) er mwyn llywio penderfyniadau dedfrydu a gwaredu. Gallai troseddwyr gael eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn gyfan gwbl, neu oddi wrth y ddalfa. Gallai hyn gynnwys eu dargyfeirio at ddedfryd gymunedol gyda gofyniad am driniaeth. Erbyn hyn, mae gwasanaethau Cysylltu ac Arallgyfeirio yn gweithredu ar draws 100% o Loegr.

Trwy Raglen Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol, mae partneriaid iechyd a chyfiawnder yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau y gwneir rhagor o ddefnydd o ofynion am driniaethau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau yn rhan o ddedfrydau cymunedol, gan gefnogi ymdrechion i leihau aildroseddu. Ar hyn o bryd, mae’r Rhaglen yn gweithredu mewn llysoedd ar draws deuddeg ardal yn Lloegr, gyda nifer o leoliadau yn benodol ar gyfer menywod, er enghraifft yn Peterborough, Northampton a MOPAC yn Llundain. Disgwylir i ragor o leoliadau fynd yn fyw yn 2020.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd National Health Service England & Improvement eu cynllun hirdymor. Roedd yn cynnwys ymrwymiad i ehangu Rhaglen Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol, gyda’r nod o gynnwys rhagor o droseddwyr benywaidd, troseddwyr tymor byr, troseddwyr ag anabledd dysgu, a’r rhai â gofynion iechyd meddwl a gofynion ychwanegol yn enwedig. Mae Rhaglen Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol yn nodi ac yn gweithio gydag ardaloedd newydd er mwyn cynyddu ei chwmpas ledled Lloegr o 2020 ymlaen.

Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod unigolion ag anghenion iechyd meddwl yn cael gofal priodol, yn y lleoliad cywir, ar yr adeg gywir. Dylai carchardai fod yn fannau lle bo troseddwyr yn cael eu cosbi a’u hailsefydlu, nid corlan ar gyfer pobl y mae eu prif broblem yn ymwneud ag iechyd meddwl.

Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i ddiwallu a diogelu anghenion troseddwyr ag anableddau dysgu neu anawsterau ac awtistiaeth. Yn rhan o’r gwaith o adnewyddu’r Strategaeth Awtistiaeth yn drawslywodraethol, rydym yn gweithio i wella’r ffordd y mae’r system gyfiawnder yn cefnogi pobl ag awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da o garchardai ac ardaloedd prawf a ddyfarnwyd ag Achrediad Awtistiaeth oddi wrth y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am fynd i’r afael ag anghenion pobl ag awtistiaeth. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn gweithio gyda swyddogion ar draws y llywodraeth yn rhan o’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Pobl Anabl a arweinir gan Swyddfa’r Cabinet, sy’n gyfle i ddatblygu polisïau trawslywodraethol er mwyn cefnogi pobl ag anableddau.

## Hil, Ethnigrwydd a Chenedligrwydd

**Menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Menywod sy'n Wladolion Tramor**
Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried anghenion penodol menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol, yn ein hymateb i Adolygiad Lammy ac yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Mae gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gan y meysydd polisi hyn, o dan lywodraeth y Bwrdd Hil ac Ethnigrwydd a Bwrdd y Rhaglen Troseddwyr Benywaidd yn y drefn honno.

Mae'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn cynnwys rhaglen waith eang i wella canlyniadau i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r Llywodraeth yn mynd ati fesul cam i gyflawni ymrwymiadau yn y Strategaeth a bydd troseddwyr benywaidd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynnwys yn y cam nesaf o'r gwaith a fydd yn mynd rhagddo. Hyd yma, mae'r Llywodraeth wedi gwneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn cyllid grant ar gyfer darpariaethau cymunedol ddangos sut y byddant yn ystyried anghenion menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wrth ddarparu eu gwasanaethau.
- Pwyso a mesur yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gwahanol ffrydiau gwaith yn y Rhaglen Troseddwyr Benywaidd.
- Cymryd camau i gynyddu amrywiaeth y gweithlu fel bod staff yn cynrychioli'n well y menywod y maent yn eu gwasanaethu.
- Trwy Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, gweithio i ymwreiddio cydraddoldeb a chynhwysiant wrth gynllunio, cynnwys a chyflwyno'r holl ddatblygiad proffesiynol.
- Datblygu pecyn hyfforddiant e-ddysgu diwygiedig am gydraddoldeb a chynhwysiant, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn cynyddu gwybodaeth yr hyfforddwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig.
- Comisiynu ymchwil sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr er mwyn deall yn well y materion sy'n tanategu'r gwahaniaethau ym mhrofiad menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac sy'n wladolion tramor.
- Gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac sy'n wladolion tramor er mwyn gwella eu gallu i rannu arferion gorau ac i ffurfio rhwydweithiau drwy ddigwyddiadau wedi eu hwyluso a thrwy gyfathrebu datblygiadau polisi yn fwy strwythuredig.

Mae'r materion penodol y mae troseddwyr benywaidd sy'n wladolion tramor yn eu hwynebu yn cael eu hystyried. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi gwneud cynnydd sylweddol er mwyn sicrhau bod troseddwyr sy'n wladolion tramor yn cael eu paratoi i'w rhyddhau mewn modd sy'n briodol i'w hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefnogi i ddychwelyd i'w gwledydd genedigol.

Bydd y Llywodraeth yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella profiadau menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac sy'n wladolion tramor gyda'r system cyfiawnder troseddol ac i ddeall yn well yr heriau unigryw y maent yn eu hwynebu. Yn y dyfodol, caiff gwaith ar gyfer y garfan hon ei lywio gan ddysg sy'n dod i'r amlwg o waith ehangach sy'n canolbwyntio ar Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac sy'n canolbwyntio ar fenywod, gan sicrhau y defnyddir dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Sipsiwn, Roma a Theithwyr[46]**

Mae menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cwmpasu grŵp amrywiol iawn, sy'n cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd hiliol ac ethnig, o dan ambarél ethnig Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi eu cysylltu'n draddodiadol drwy eu ffordd unigryw o fyw drwy nomadiaeth a phwysigrwydd eu teulu estynedig, mae'n bwysig nodi bod y term Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn un sy'n ymwreiddio categori o amrywiaeth yn hytrach na chategoreiddio grŵp homogenaidd. Mae pob person Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unigolyn, a gall ei brofiadau fod yn wahanol iawn, sy'n golygu y bydd profiadau menywod sy'n Deithwyr Gwyddelig yn wahanol i brofiadau menywod Romani, er enghraifft. Er bod Sipsiwn a Theithwyr a Roma yn cael eu cydnabod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[47], dylid nodi ei bod yn fater hysbys na ddatgenir data ethnigrwydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddigonol.

Er nad yw cam-drin domestig yn unigryw i Sipsiwn a Theithwyr a Roma, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai menywod yn bennaf yw Sipsiwn a Theithwyr sy'n ddioddefwyr[48]. Er nad oes tystiolaeth bod cam-drin domestig yn fwy cyffredin mewn grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr nag ydyw mewn unrhyw grŵp ethnig arall, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhwystrau diwylliannol (ofn hiliaeth, arwahanrwydd, pryderon ynghylch ceisio dod o hyn i lety arall) wrth adael partner treisgar yn enwedig o gryf mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr[49]. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ofni siarad â gwasanaethau y gwelir eu bod yn cynrychioli 'yr heddlu' neu 'y Llywodraeth' oherwydd eu bod yn ofni na chânt eu credu neu y cânt eu beio am y drosedd. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl bod y syniad o 'gywilydd' a allai ddisgyn yn gyhoeddus arnynt os gwelir eu bod yn hysbysu awdurdodau ynghylch anghydfodau teuluol preifat, yn atal menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhag rhyngweithio â chyrff cyhoeddus. Felly, dylai sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus fabwysiadu dull allgymorth croesawgar, oherwydd ei bod yn bosibl bod rhai aelodau Sipsiwn, Roma a Theithwyr heb wybod neu'n methu â chael gafael ar gymorth.

---

46 Caiff yr adran hon ei llywio gan ymgysylltiadau diweddar â rhanddeiliaid a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys mewnwelediadau o gynhadledd polisi Traveller Movement 2019.

47 c.15 Equality Act 2010, s.9 (1) (c)

48 Equalities and Human rights Commission: Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review. https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research-report-12-inequalities-experienced-by-gypsy-and-traveller-communities.pdf t. 138

49 Ibid t. 139.

Mae'r ddeinameg hon o danadrodd yn effeithio ar y gynrychiolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn data sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Derbynnir yn gyffredinol fod rhai menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn llai tebygol o drafod cyfraddau uchel o bryder ac iselder, sy'n gyffredin mewn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, oherwydd y gallai hyn gael ei ystyried yn gyhoeddus wedyn fel trallod etifeddol ac mae'n bosibl y bwrir amheuaeth ar eu gallu i fagu plant.

Er gwaethaf y bylchau mewn data, noda Nexus (2006) yr achosion canlynol o hunanladdiad ymhlith menywod sy'n Deithwyr Gwyddelig: carcharu, iselder ar ôl arwahanrwydd cymdeithasol a cham-drin domestig[50]. Hefyd, nodwyd y gallai risgiau hunanladdiad fod yn uwch ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol[51]. Mae hunaniaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gymhleth, ac mae angen i ymarferwyr ystyried pob agwedd ar eu gwirioneddau byw (dosbarth, rhywedd, rhywioldeb, anabledd/gallu, hil ac ati) wrth ddarparu gwasanaethau iddynt. Tynnodd Pavee Point Travellers Centre sylw'n benodol at y ffaith bod menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chymunedau Teithwyr Gwyddelig yn ystyried y berthynas rhwng mam a'i phlant yn sanctaidd[52].

Mae gan y cymunedau sydd wedi eu cynnwys o dan ambarél y term 'Sipsiwn, Roma a Theithwyr' arferion, crefydd, iaith a threftadaeth wahanol. Er bod Saesneg yn cael ei siarad ymhlith Teithwyr Gwyddelig, mewn cyferbyniad, Romanes yw'r iaith gyntaf a fabwysiedir yn gyffredin gan y Roma, ac yna iaith tarddiad eu cartref, sydd yn Nwyrain Ewrop yn aml. Felly, gall hyn olygu mai Saesneg yw'r drydedd iaith i lawer o bobl Roma, a allai greu rhwystr iaith yn benodol pan fo sgyrsiau'n cynnwys terminoleg gymhleth, megis gyda gwasanaethau iechyd. Dylid ystyried defnyddio cyfryngwr neu gyfieithydd yn ôl yr angen.

Gallai menywod Roma brofi haen ychwanegol o hiliaeth canfyddedig na wynebir gan eu cymheiriaid ethnig, sef Sipsiwn a Theithwyr sy'n wyn. Er bod gan rai Roma ymddangosiad amlwg nad yw'n wyn a gwahaniaethau ieithyddol gwahanol yn aml, ac maent yn wynebu haen ychwanegol o hiliaeth yn aml, mae eraill (er eu bod yn dod o linach sy'n wreiddiol o Isgyfandir India) wedi integreiddio i'r mwyafrif sy'n wyn o ran hil yn y gwledydd y maent bellach yn byw ynddynt, ac nid yw llawer ohonynt yn nodi eu bod yn Roma ac efallai na fyddant yn cael eu hystyried yn bobl nad ydynt yn wyn.

Deallwn fod drwgdybiaeth rhwng cenedlaethau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr tuag at lawer o wasanaethau cyhoeddus ac mae'n rhaid gwneud dulliau sydd wedi eu haddasu er mwyn meithrin hyder cymunedau'n araf, gan gynnwys defnyddio unigolion dibynadwy ac elusennau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae pobl(oedd) Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi pwysleisio y gall ennill ymddiriedaeth arweinwyr cymunedol a phobl uchel

50 Ibid t.83

51 Ibid t.83

52 Pavee Point: "Travellers' attitudes to sexual relationships and sex education https://www.paveepoint.ie/wp-content/uploads/2014/01/Relationships-and-Sexuality-Attitudes.pdf, tt. 10, 15-16

eu parch fod yn ffordd i wasanaethau cyhoeddus sefydlu presenoldeb mewn safle neu gymuned[53].

## Crefydd

Mae crefydd yn y carchar a swyddogaeth y Caplan wedi eu cynnwys yn Neddf Carchardai 1952. Mae dyletswyddau'r Caplan (ymweld â phob carcharor newydd, ymweld â'r rhai sydd yn yr uned wahanu a gofal iechyd bob dydd, gan ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed) yn rhoi Caplaniaid yng nghanol pob carchar.

Gall ffydd menyw fod yn allweddol i'w helpu i adsefydlu ac i ailddatblygu ei hunan-adnabyddiaeth. Mae timau caplaniaeth aml-ffydd carchardai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn darparu gwasanaethau ffydd, astudiaethau ffydd, ymarferion myfyriol a gofal bugeiliol. Mae Caplaniaid yno i gerdded ochr yn ochr â phob menyw sy'n dewis gwneud hynny drwy gydol eu hamser yn y carchar. Yn aml hefyd, mae Caplaniaid yn ymwneud llawer â chefnogi menywod drwy brofedigaeth a thrwy adegau eraill sy'n newid eu bywydau, megis gwahanu oddi wrth eu plentyn cyn iddo gael ei fabwysiadu. Mae darpariaeth Caplaniaeth mewn carchar yn ymestyn i ofal Through the Gate drwy fentrau gan gynnwys Making Connections Project, sy'n paru menywod â mentoriaid wrth iddynt wneud eu tymor mewn carchar ac yna eu cefnogi ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Hefyd, mae prosiect Welcome Directory yn gweithredu ar gyfer pob menyw, a dyn, ac mae'n ceisio dod o hyd i addoldai addas ar gyfer pob traddodiad ffydd pan fo unigolyn yn cael ei ryddhau, ac yn ei gefnogi yn y gymuned.

Ar ôl iddynt gael eu carcharu, cydnabyddir y bydd menywod yn wynebu teimladau o euogrwydd oherwydd eu bod wedi eu gwahanu oddi wrth eu plant a'u teulu; teimlad na fyddant yn cael eu derbyn gan eu cymunedau ffydd oherwydd eu gweithredoedd / euogfarnau; teimlad bod eu troseddau'n eu hatal rhag dechrau o'r newydd; yn wynebu'r posibilrwydd o ddychwelyd i sefyllfa gamdriniol. Gallai menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wynebu heriau ychwanegol o ganlyniad i'w sefyllfa gymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd, ffydd a dosbarth. Gall hyn atal menywod o gymunedau o'r fath rhag ceisio cymorth ac o ganlyniad gall atal sefydliadau ffydd, statudol a'r sector gwirfoddol rhag diwallu eu hanghenion[54].

Yn ôl HMPPS Annual Offender Equalities Report 2018-19 (Tachwedd 2019)[55], yng Nghymru a Lloegr ddiwedd Mawrth 2019, 48% oedd cyfran y carcharorion â ffydd ddatganedig ymhlith poblogaeth y carchardai, a Christnogaeth oedd y grwpiau mwyaf

---

[53] Equalities and Human rights Commission: Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research-report-12-inequalities-experienced-by-gypsy-and-traveller-communities.pdf, tt.173, 184, 192.

[54] Gohir, Shaista (2019). Muslim Women's Experiences of the Criminal Justice System. Ar gael yn: https://www.mwnuk.co.uk/go_files/resources/Muslim_Women_and_Criminal_Justice_FINAL.pdf

[55] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/hm-prison-and-probation-service-offender-equalities-annual-report-2018-to-2019

ohonynt, gyda 57% o fenywod a 48% o garcharorion gwrywaidd yn nodi eu bod yn Gristnogion, ac 16% o boblogaeth wrywaidd y carchardai, a 6% o boblogaeth fenywaidd y carchardai yn nodi eu bod yn Foslemiaid.

O ystyried bod cyfran sylweddol o boblogaeth y carchardai yn uniaethu â chrefydd ac yn dod o hyd i ffydd pan fônt yn y carchar, mae'n bwysig bod y system cyfiawnder troseddol yn cydnabod ac yn diwallu anghenion menywod mewn cysylltiad â'u ffydd drwy gydol eu dedfryd. Cefnogir yr effaith gadarnhaol y gall ffydd ei chael ar ymatal gan ymchwil[56].

Yn 2018-19, cydnabu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y bwlch a fodolai mewn gwaith partneriaeth rhwng profiannaeth a chymunedau ffydd, gan gynnal cynllun peilot mewn 12 carchar (a oedd yn cynnwys carchar benywaidd) a 6 Safle Cymeradwy (yr oedd un ohonynt ar gyfer menywod) i gryfhau'r trefniadau partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chymunedau ffydd a oedd yn cynnwys caplaniaid carchardai. Ceisiodd gydnabod hefyd yr effaith gadarnhaol y gall ffydd ei chael ar adsefydlu ac ymatal. Roedd y canfyddiadau, a gasglwyd dros gyfnod o 12 mis, yn dangos gwell cyfathrebu rhwng staff prawf a chaplaniaid carchardai, gyda chaplaniaid yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd cynllunio dedfrydau ar gyfer carcharorion pan aseswyd fod ffydd yn ffactor amddiffynnol, a chafwyd sylwadau cadarnhaol oddi wrth garcharorion a staff ynghylch cynnwys ffydd yn ystod taith y ddedfryd. Yn y gymuned, roedd y staff prawf yn y Safle Cymeradwy yn cynnwys trafodaethau ynghylch ffydd a gobaith yn eu sesiynau gwaith allweddol gyda phreswylwyr, a chrëwyd cysylltiadau â grwpiau ffydd lleol a phrosiectau caplaniaeth. O ystyried y canfyddiadau cadarnhaol hyn, caiff y trefniadau hyn eu cyflwyno i bob carchar ac eiddo cymeradwy ledled Cymru a Lloegr.

Trwy ystyried anghenion ffydd/ysbrydol menywod wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, gall gwasanaethau ddarparu dull cyfannol o reoli a gofalu am y rhai sydd wedi troseddu. Mae cynllun peilot y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi dangos y gall cynnwys ffydd wrth weithio gyda'r rhai sy'n cael eu goruchwylio, yn y carchar ac yn y gymuned, roi gobaith a chefnogaeth i fenywod osgoi aildroseddu wrth iddynt roi o'u hamser yn y cymunedau ffydd sy'n eu croesawu nhw a thrwy'r perthnasoedd y maent yn eu ffurfio a all gefnogi eu hadferiad.

## Carfanau Eraill sy'n Agored i Niwed

### Gwaith Rhyw a Phuteindra

Gallai unigolion sy'n ymwneud â phuteindra a gwaith rhyw fod wedi profi ymosodiad a cham-drin rhywiol a chorfforol ac mae'n bosibl y bydd ganddynt anhwylderau meddyliol sy'n digwydd yr un pryd, sy'n ei gwneud yn anos cael gafael ar wasanaethau prif ffrwd. Yn aml, mae'n bosibl y bydd ganddynt ofn stigma ac ymateb negyddol wrth ofyn am gymorth. Er y bydd mwyafrif y rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw yn ceisio defnyddio gwasanaethau

[56] Community Chaplaincy Association (2017). Ar gael yn: https://www.ccgsj.crim.cam.ac.uk/pdf/SeeingNewFuture

prif ffrwd yn ôl yr angen, mae gwasanaethau cymorth arbenigol ar gael hefyd i'r rhai sy'n ceisio cymorth neu sy'n dymuno gadael.

Ers 2016, mae Tampon Tax Fund wedi darparu £2,077,111 i sefydliadau arbenigol sy'n cefnogi'r rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw. Mae'r rhain yn cynnwys One25, Street Talk, Women at the Well, the Magdalene Group, Brighton Oasis Project, Joanna Project, WM Consortium Sexual Violence Providers, a £1 miliwn i SACRO er mwyn cefnogi'r rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw sy'n gweithredu ar-lein yn yr Alban. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau megis cyngor ynghylch diogelwch, cymorth i ymadael, cyngor mewn lleoliad galw heibio a diogelu rhag trais rhywiol a cham-drin.

Hefyd, drwy Gronfa Trawsnewid Trais yn erbyn Merched a Genethod, mae'r Swyddfa Gartref wedi dyfarnu £650,000 i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Glannau Mersi er mwyn cefnogi'r rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw sydd wedi dioddef trosedd. Mae'r prosiect yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr i'r rhai sydd wedi dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef, cam-drin domestig neu drais rhywiol, camfanteisio neu fasnachu pobl. Ym mlwyddyn ariannol 2018/19, cefnogodd Red Umbrella Project bron i 250 o unigolion, gan gynnwys drwy ddarparu cymorth tai, cyngor ynghylch diogelwch, asesiadau iechyd neu drwy allgymorth.

**Caethwasiaeth Fodern**

Mae caethwasiaeth fodern yn cwmpasu masnachu pobl a chaethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol. I ddioddefwyr, gall camfanteisio ddigwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys: camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol, caethwasanaeth domestig, troseddu gorfodol a thynnu organau. Gall dioddefwyr fod yn oedolion neu'n blant, a gall dioddefwyr fod yn wladolion y DU neu o dramor.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddau erchyll caethwasiaeth fodern; gan sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod y rhai sy'n gyfrifol yn cael eu herlyn. Gwnaethom gyflwyno Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 gan roi'r offer i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys y dedfrydau am oes mwyaf posibl i gyflawnwyr a diogelwch gwell i ddioddefwyr.

O'r dioddefwyr posibl a atgyfeiriwyd at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn 2019, roedd traean ohonynt (3,391) yn fenywod ac yn gyffredinol, dioddefwyr benywaidd posibl oedd yn cael eu cyfeirio oherwydd camfanteisio rhywiol gan amlaf, fodd bynnag, gwnaed atgyfeiriadau ar gyfer dioddefwyr benywaidd posibl ar draws pob math o gamfanteisio[57]. Cafodd dros 2,400 o ddioddefwyr posibl (o bob rhywedd) eu cyfeirio at y Mecanwaith

[57] Home Office (2020). National Referral Mechanism Statistics. UK, End of Year Summary, 2019. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/876646/national-referral-mechanism-statistics-uk-end-of-year-summary-2019.pdf

Atgyfeirio Cenedlaethol oherwydd camfanteisio rhywiol yn 2019, sy’n cyfrif am 23% o holl atgyfeiriadau’r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn 2019.

Fodd bynnag, mae’n bwysig cydnabod nad camfanteisio rhywiol yw’r unig fath o gamfanteisio y gallent ei ddioddef.

Mae llawer o ddioddefwyr yn cael eu curo, eu treisio a’u cam-drin, neu’n cael eu gorfodi i sefyllfa o gaethwasanaeth domestig[58]. Gallent gael eu twyllo gan addewidion ffug o swyddi da a chyfleoedd economaidd, allan o uchelgais i ennill arian a gwneud bywyd gwell i’w plant neu eu teulu yn aml. Math o drais sy’n gysylltiedig â rhywedd yw recriwtio menywod a merched drwy rym neu’n dwyllodrus ar gyfer puteindra gorfodol neu gamfanteisio rhywiol.

Yn y DU, Gwefannau Gwasanaethau i Oedolion yw’r galluogwr mwyaf arwyddocaol o gamfanteisio rhywiol sy’n gysylltiedig â masnachu pobl. Cyfeiriaduron hysbysebu ar-lein sy’n darparu platfform y gall y rhai sy’n ymwneud â gwaith rhyw hysbysebu eu gwasanaethau arno yw Gwefannau Gwasanaethau i Oedolion. Ochr yn ochr ag asiantaethau partneru a gweithwyr gwasanaethau i oedolion, mae troseddwyr yn defnyddio’r gwefannau hyn i hysbysebu gwasanaethau dioddefwyr caethwasiaeth fodern.

Yn aml, mae gan ddioddefwyr caethwasiaeth fodern anghenion sy’n deillio o’u profiad o gamfanteisio. Mae Llywodraeth y DU yn darparu gwasanaethau eiriolaeth a chymorth arbenigol i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern er mwyn eu cynorthwyo i ailadeiladu eu bywydau ac i ailintegreiddio i gymunedau lleol.

Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yw’r broses y mae’r DU ei defnyddio i nodi ac i gefnogi dioddefwyr caethwasiaeth fodern posibl drwy eu cysylltu â chymorth priodol, y gellid ei ddarparu drwy’r contract gofal dioddefwyr arbenigol, awdurdodau lleol a gwasanaethau i geiswyr lloches. Gall oedolion a nodir yn y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol dderbyn llety, cymorth ariannol, cymorth i gael gafael ar ofal iechyd meddwl a chorfforol, gan gynnwys cwnsela a chymorth cyfreithiol.

Yn 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth gyfres o ddiwygiadau i wella’r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid. Mae’r diwygiadau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn effeithiol o ran cyflawni’r hyn y mae dioddefwyr ei eisiau: sef prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach a mwy penodol y mae gan randdeiliaid a dioddefwyr hyder ynddynt; gwell cymorth i oedolion sy’n ddioddefwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol; canfod dioddefwyr yn well; a gwell cefnogaeth i blant sy’n dioddef caethwasiaeth fodern.

58 Cooper et al. (2017). A Typology of Modern Slavery Offences in the UK. Research Report 93. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652652/typology-modern-slavery-offences-horr93.pdf

Er mwyn gwella'r cymorth i oedolion sy'n ddioddefwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau statudol hefyd o dan Adran 49 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ym mis Ebrill 2020[59], sy'n darparu fframwaith cefnogaeth clir i rai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r canllawiau'n egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau staff y rheng flaen a rhanddeiliaid lleol ac yn nodi'r cymorth y mae gan ddioddefwyr hawl iddo a sut y ceir gafael arno.

Argymhellion ac arferion gorau:

- Mae dioddefwyr caethwasiaeth fodern wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig ac felly dylid trin unrhyw ryngweithiad proffesiynol â dioddefwyr fel cyfle i'w helpu i symud ymlaen tuag at sefydlogrwydd hirdymor.
- Gallai dioddefwyr fod yn amharod i uniaethu eu hunain, neu fethu â gwneud hynny. Mae rhai grwpiau'n fwy agored i ddioddef caethwasiaeth fodern, yn enwedig plant, cyn-ddioddefwyr, pobl sy'n ddigartref neu bobl â phroblemau dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.
- Gallai dioddefwyr brofi anhwylder straen ôl-drawmatig a dylai unrhyw un sy'n cyfweld dioddefwr posibl fod yn ymwybodol o effaith trawma, megis anhawster cofio ffeithiau, ar y sawl gaiff ei gyfweld.
- Pan fo plentyn yn ddioddefwr posibl, mae mwy o risg y bydd yn mynd ar goll ac y gallai ddychwelyd at ei fasnachwyr a chael ei fasnachu eto.

Mae Atodiad D o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Canllawiau Statudol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch gweithio gyda dioddefwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys: rhwystrau cyffredin i ddatgelu, cyfweld pobl sydd wedi profi trawma a gweithio gyda phlant sy'n ddioddefwyr.

**Plant mewn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal**

Er nad yw mwyafrif y plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ymwneud â gweithgarwch troseddol, mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i gael eu gorgynrychioli o'u cymharu ag eraill yn y system cyfiawnder troseddol[60].

Nododd HMPPS Guidance on Care Leavers in Prison and Probation[61], o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, fod y rhai sy'n gadael gofal, yn fwy tebygol o fod ag euogfarn droseddol, ac y gallent fod wedi profi troseddoli diangen. Amcangyfrifir bod y rhai sy'n

59 Home Office (2020). Modern Slavery Act 2015 – Statutory Guidance for England and Wales. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/896033/July_2020_-_Statutory_Guidance_under_the_Modern_Slavery_Act_2015_v1.01.pdf

60 National Statistics (2018 – 2019): Children looked after in England including adoption Children looked after in England including adoption: 2018 to 2019 - GOV.UK

61 HMPPS (2019). Care leavers in prison and probation. Ar gael yn: https://www.gov.uk/guidance/care-leavers-in-prison-and-probation

gadael gofal yn cynrychioli rhwng 24%[62] a 27%[63] o'r boblogaeth carchardai i oedolion. Digwydd hyn er mai llai nag 1%[64] o bobl o dan 18 oed sy'n mynd i ofal awdurdod lleol bob blwyddyn. Mae'r canllawiau yn mynd ymhellach hefyd, gan awgrymu mai ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phrofiadau teuluol andwyol megis gwrthdaro teuluol, cam-drin domestig, cam-drin plant ac esgeulustod yw rhai o'r rhagfynegyddion cryfaf o droseddau ieuenctid. I fenywod yn eu harddegau cynnar, mae cyswllt â'r system cyfraith gyhoeddus yn cysylltu â chynnydd mwy yn y tebygolrwydd o droseddu, a throseddu cyson a threisgar, o'i gymharu â dynion. Fodd bynnag, mae gan ddynion ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfraith gyhoeddus ragor o debygolrwydd o droseddu o'u cymharu â menywod o'r un oedran. Dengys ymchwil ryngwladol y gellir cysylltu profiad o leoliad y tu allan i'r cartref yn gryfach â throseddu ymhlith menywod.

Mae HMPPS Strategy for Care Experienced People[65] yn nodi bod 9 o bob 16 o ferched yn y ddalfa wedi bod mewn gofal o'r blaen. Noda Care Experienced People in Custody Position Statement Summary[66], ymhlith y dychweliadau a gafwyd o 100 o garchardai, fod 3,686 o bobl wedi eu cofnodi fel pobl â phrofiad o ofal – mae'r nifer hwn yn debygol o fod yn uwch pan fo adroddiad cenedlaethol NOMIS yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn o'i gymharu â 3,404 ym mis Tachwedd 2019, sef 4% o gyfanswm poblogaeth y carchardai. Rhannwyd hyn yn 3,126 o ddynion (3.9%) a 277 o fenywod (7.3%). Roedd nifer y dychweliadau ar gyfer mis Hydref 2018 yn rhoi cofnod o 1,811 o bobl sydd wedi bod mewn gofal a oedd yn cynnwys 1,611 o ddynion a 200 o fenywod (2.17% o'r boblogaeth gyda 5.2% o'r boblogaeth sy'n garcharorion benywaidd).

Canfu HMPPS Strategy for Care Experience People hefyd fod gan fenywod sydd wedi bod mewn gofal maeth pan oeddent yn eu harddegau cynnar gyfraddau ail-garcharu uwch na menywod nad oedd ganddynt brofiad o fod mewn gofal maeth, ni waeth a gawsant eu huno â'u rhieni ai peidio. Mae'r cydgysylltiad hwn yn enwedig o gryf pan fo gan fenywod anghenion addysgol ac anghenion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau hefyd. Mae'r ymchwilwyr yn awgrymu efallai fod angen sylw a chefnogaeth ychwanegol ar fenywod sydd wedi bod mewn gofal, yn ystod eu hamser yn y ddalfa ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu efallai fod angen cymorth ar bobl, yn enwedig menywod, sydd wedi bod mewn gofal i ddatblygu perthnasoedd anffurfiol a ffurfiol ac efallai y bydd angen cymorth emosiynol ychwanegol arnynt.

---

62 MOJ (2014). Prisoners' childhood and family backgrounds. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

63 Social Exclusion Unit (2002). Reducing re-offending by ex-prisoners. Ar gael yn: https://www.bristol.ac.uk/poverty/downloads/keyofficialdocuments/Reducing%20Reoffending.pdf

64 Harker, R. a Heath, S. (2014) Children in Care in England: Ystadegau, SN/SG/4470, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

65 HMPPS. Strategy for Care Experienced People [Heb ei gyhoeddi].

66 HMPPS. Care Experienced People in Custody Position Statement Summary – Mawrth 2020 [Heb ei gyhoeddi].

Mae Care Leavers' Association (CLA) wedi tynnu sylw at ffactorau sy'n effeithio'n gyffredin ar y rhai sydd wedi bod mewn gofal, megis lles emosiynol ac iechyd meddwl gwael; sgiliau cymdeithasol nad ydynt wedi eu datblygu'n ddigonol; arwahanrwydd, unigrwydd a/neu ymdeimlad o fod wedi eu gadael; anawsterau wrth sefydlu ymddiriedaeth neu ffurfio perthynas ac iddi ymlyniad ystyrlon; a dyheadau isel ar gyfer y dyfodol. Mae CLA yn datgan y gall y ffactorau hyn, ynghyd ag anghenion llety ac anghenion, diffyg cyfalaf cymdeithasol, a'r stigma posibl o fod wedi bod mewn gofal, gynyddu'r risg o aildroseddu.

Wrth ymateb i anghenion y garfan hon, mae'n rhaid inni gydnabod bod y mwyafrif helaeth o blant sy'n derbyn gofal yn mynd i ofal oherwydd camdriniaeth ac esgeulustod, ac effaith trawma a cham-drin, neu wendidau ychwanegol ar eu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol. Gall hyn gyfrannu at ymddygiad sy'n eu gwneud yn enwedig o agored i gymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol. Yn 2018, roedd mwyafrif y plant (63%) a aeth i mewn i'r system ofal wedi profi camdriniaeth neu esgeulustod, sy'n golygu bod ganddynt anfanteision sylweddol a'u bod nhw'n agored i niwed yn aml. Gall plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fod yn enwedig o agored i niwed, gan gael eu targedu ar gyfer camfanteisio troseddol. Dylai unrhyw benderfyniad i gyhuddo ac erlyn person ifanc ystyried a yw ei weithredoedd yn deillio o gamfanteisio o'r fath neu fasnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern.

Er nad ydynt byth yn lleihau'r angen iddynt gymryd cyfrifoldeb am weithredoedd a'u canlyniadau, gall y dull cywir o ymateb i ymddygiad heriol neu wrth gysylltu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol helpu i osgoi troseddoli yn ddiangen blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan hybu gwell canlyniadau i'r plant hyn a'r gymdeithas. Mae'n rhaid inni sicrhau nad yw ein hymateb i ddigwyddiadau'n dechrau nac yn gwaethygu ymddygiad negyddol, ac nad yw'n cyfrannu at gysylltiad â'r heddlu na throseddoli diangen. Gall troseddu parhaus a mwy difrifol ddangos bod gan y person ifanc anghenion sylweddol nas diwallwyd a dylai ymatebion i droseddu gydnabod hyn. O ystyried nifer yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â bywydau'r plant a'r bobl ifanc hyn, mae goruchwyliaeth a chymorth gweithredol amlasiantaeth cryf yn hanfodol, o atal troseddu i gymorth pan fônt yn y ddalfa, a phan fônt yn gadael y ddalfa.

Mae Cynllun Gweithredu'r Fforwm Cenedlaethol ynghylch Plant sydd wedi bod mewn Gofal yn amlinellu'r Amcanion Strategol a'r camau a gymerir i gefnogi pobl sydd wedi bod mewn Gofal yn y system cyfiawnder troseddol ac mae'n cynnwys:

- Canfod y rhai sydd wedi gadael gofal sydd yn y ddalfa
- Cydweithio ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses gynllunio ar gyfer y rhai sy'n dod i'r carchar, sy'n gwneud eu tymor mewn carchar neu sy'n cael eu rhyddhau a'r rhai sydd yn y gymuned
- Gwasanaethau cofleidiol – cydgysylltu'n effeithiol gwasanaethau sy'n galluogi datblygu perthnasoedd dibynadwy ac ymddiriedus

- Gwella ffactorau amddiffynnol - cynorthwyo unigolion i fynd i'r afael â rhai o anfanteision posibl bod mewn gofal mewn cysylltiad ag addysg, cyflogaeth, llety, iechyd meddwl, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd
- Adsefydlu – darparu cyfleoedd i fyfyrio, annog gobaith, optimistiaeth a datblygu cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol
- Rhannu profiadau – galluogi pobl sydd wedi bod mewn gofal i gael lle i rannu eu profiadau o fod mewn gofal yn ddiogel

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, gweler nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Ble yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.